


# Cymraeg ail iaith

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

## Welsh second language

Guidance for Key Stages 2 and 3



Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Cymraeg ail iaith

## Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

- Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.
- Trosolwg** Mae'r deunyddiau hyn yn darparu negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu mewn Cymraeg ail iaith. Maen nhw'n cynnwys proffiliau o waith dysgwyr er mwyn egluro'r safonau a amlinellir yn y disgrifiadau lefel ac yn dangos sut i ddefnyddio disgrifiadau lefel wrth lunio barn sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Camau i'w cymryd** Adolygu'r cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Yr Is-adran Cwricwlwm  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu
- Dogfennau cysylltiedig** *Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru; Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru; Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)*

The English version of the above information can be found on page 228 of this booklet.



**50%** wedi'i ailgylchu  
recycled

Cyf: CAD/GM/0028  
ISBN: 978 0 7504 4862 8

A-EAC-02-01-qA694368/1/PG  
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2009

# Contents/Cynnwys

<b>Introduction/Cyflwyniad</b>	<b>2/3</b>					
<b>Using these materials/Defnyddio'r deunyddiau hyn</b>	<b>6/7</b>					
<b>Section 1/Adran 1</b>						
Key messages for learning and teaching in Welsh second language	11					
Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn Cymraeg ail iaith	11					
<b>Section 2/Adran 2</b>						
Expectations and progression in Welsh second language	31					
Disgwyliadau a dilyniant mewn Cymraeg ail iaith	31					
<b>Section 3/Adran 3</b>						
Making judgements at the end of Key Stages 2 and 3	39					
Llunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3	39					
<b>Key Stage 2/Cyfnod Allweddol 2</b>						
Gareth	Oracy	Llafaredd	Level 2	Lefel 2	44	45
	Reading	Darllen	Level 1	Lefel 1		
	Writing	Ysgrifennu	Level 1	Lefel 1		
Kirsty	Oracy	Llafaredd	Level 3	Lefel 3	68	69
	Reading	Darllen	Level 3	Lefel 3		
	Writing	Ysgrifennu	Level 3	Lefel 3		
Freya	Oracy	Llafaredd	Level 6	Lefel 6	98	99
	Reading	Darllen	Level 5	Lefel 5		
	Writing	Ysgrifennu	Level 6	Lefel 6		
<b>Key Stage 3/Cyfnod Allweddol 3</b>						
Ethan	Oracy	Llafaredd	Level 2	Lefel 2	130	131
	Reading	Darllen	Level 2	Lefel 2		
	Writing	Ysgrifennu	Level 2	Lefel 2		
Laura	Oracy	Llafaredd	Level 4	Lefel 4	164	165
	Reading	Darllen	Level 5	Lefel 5		
	Writing	Ysgrifennu	Level 4	Lefel 4		
Emily	Oracy	Llafaredd	Level 6	Lefel 6	196	197
	Reading	Darllen	Level 6	Lefel 6		
	Writing	Ysgrifennu	Level 7	Lefel 7		
<b>Acknowledgements/Cydnabyddiaethau</b>	<b>226/227</b>					

## Introduction

The programmes of study set out the opportunities that learners should be given at each key stage and provide the basis from which you, as a teacher, can plan learning and teaching. They are divided into two sections, Skills and Range. The Skills section lists the skills to be developed in a subject and the Range section comprises the opportunities and contexts through which these skills should be developed and consolidated.

Ongoing formative assessment – assessment **for** learning – lies at the heart of good teaching. Through the assessments that you make in the course of your teaching, you will build up an extensive knowledge of your learners' strengths, as well as the areas that need further development, and you will use this knowledge to help you plan for the next steps in their learning. Learners will also gain understanding of specific learning goals and the associated success criteria so that, supported by you, they can develop their capacity for self-assessment and peer assessment. In this way, they can establish their current position, set and move towards targets, and discover if and when the targets have been reached. Individual targets are linked to improving the quality of a learner's work, as highlighted through formative feedback, and are therefore linked to success criteria for specific tasks. Level descriptions do not make effective targets as these describe attainment across the breadth of the programme of study at the end of a key stage.

Level descriptions can help to inform your planning, teaching and assessment at Key Stages 2 and 3 by indicating expectations at particular levels and progression in the subject. Evidence from assessment for learning will indicate where more time is needed to consolidate learning and when learners are ready to move on. You may wish to keep some evidence so that you can discuss a learner's work and progress with them and/or with colleagues or parents/guardians. However, there is no statutory requirement to keep unnecessarily complex records or detailed evidence on every learner.

## Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

The essential function of level descriptions is to help you make rounded summative judgements at the end of Key Stages 2 and 3 about a learner's overall performance. Level descriptions are designed neither to be used to 'level' individual pieces of work nor for the production of half-termly or termly data. It is only by the end of the key stage that you will have built up sufficient knowledge about a learner's performance across a range of work, and in a variety of contexts, to enable you to make a judgement in relation to the level descriptions.

It may be that some learners will be more advanced in some aspects of the work than in others, and that no one level description provides an exact fit. That is to be expected, and the range of individual learners' work included in these materials illustrates the making of best-fit judgements under those circumstances. Many schools/departments have found it helpful to develop their own learner profiles to support moderation of end of key stage judgements. These profiles also help to maintain a common understanding of standards when they are reviewed annually and refreshed when necessary.

When making judgements at the end of Key Stages 2 and 3, you should decide which level description **best fits** a learner's performance. The aim is for a rounded judgement that:

- is based on your knowledge of how the learner performs across a range of contexts
- takes into account different strengths and areas for development in that learner's performance
- is checked against adjacent level descriptions to ensure that the level judged to be the most appropriate is the closest overall match to the learner's performance in the attainment target.

National curriculum outcomes have been written for learners working below Level 1. These are non-statutory and guidance on their use is planned.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adrannau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau pan fo angen.

Pan fydd barn yn cael ei llunio ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1. Deilliannau anstatudol yw'r rhain, a bwriedir darparu arweiniad ar gyfer eu defnyddio.

## Using these materials

The materials include this booklet and a DVD. The DVD shows Key Stage 2 and 3 learners working on oracy and oral response to reading elements of the programme of study. The commentaries are in the booklet.

This booklet is divided into three sections.

- Section 1 highlights key messages for learning and teaching in Welsh second language.
- Section 2 highlights expectations and progression in Welsh second language.
- Section 3 contains a series of learner profiles. These are designed to show the use of the level descriptions in coming to judgements about a learner's overall performance at the end of Key Stages 2 and 3. You will need to refer to the DVD as well as the booklet.

This booklet and the DVD are for reference when you wish to:

- review your learning plans and activities
- consider the standards set out in the revised Welsh Order
- work with other teachers to reach a shared understanding of the level descriptions
- prepare to make judgements at the end of the key stage
- develop your own learner profiles
- support transition from Key Stage 2 to Key Stage 3.

For ease of reference, the level descriptions are included in a leaflet with this booklet.

A CD-ROM is also included with this booklet. It contains a PDF version of *Welsh in the National Curriculum for Wales, Skills framework for 3 to 19-year-olds in Wales* and this guidance.



## Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r deunyddiau yn cynnwys y llyfryn hwn a DVD. Mae'r DVD yn dangos dysgwyr Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn gweithio ar elfennau llafaredd ac ymateb llafar i ddarllen y rhaglenni astudio. Mae'r sylwebaethau yn y llyfryn.

Mae'r llyfryn hwn wedi ei rannu'n dair adran.

- |         |   |
|---------|---|
| Adran 1 | sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn Cymraeg ail iaith.  |
| Adran 2 | sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant mewn Cymraeg ail iaith.  |
| Adran 3 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd angen cyfeirio at y DVD yn ogystal â'r llyfryn. |

Gallwch gyfeirio at y llyfryn hwn a'r DVD pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y Gorchymyn Cymraeg diwygiedig
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar daflen gyda'r llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae CD-ROM wedi ei ddarparu gyda'r llyfryn hwn hefyd. Mae'n cynnwys fersiwn PDF o *Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a'r canllawiau hyn.

This guidance is part of a series of materials that will help teachers at Key Stages 2 and 3 to implement the revised curriculum and its associated assessment arrangements. The series includes:

- *Making the most of learning: Implementing the revised curriculum* – overview guidance on implementing the new curriculum
- *Skills framework for 3 to 19-year-olds in Wales* – which includes guidance about progression in skills
- *Ensuring consistency in teacher assessment: Guidance for Key Stages 2 and 3*
- *A curriculum for all learners: Guidance to support teachers of learners with additional learning needs*
- specific guidance for all national curriculum subjects, personal and social education, careers and the world of work, and religious education.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi'r cwricwlwm diwygiedig a'i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi'r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy'n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- canllawiau penodol ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith, ac addysg grefyddol.



*Section  
Adran*

1

Key messages for learning and teaching  
in Welsh second language

Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac  
addysgu mewn Cymraeg ail iaith

This section will focus on helping you to plan for teaching the revised programmes of study so that they are relevant and motivating for each learner, i.e. focusing on the learner. You should plan to provide opportunities for learners to develop skills through a wide variety of contexts identified under the heading Range. You should use Skills and Range as a flexible framework to select contexts and to develop activities that will be relevant and motivating for your learners.

Schools have the freedom to organise and deliver the curriculum in a way that suits your circumstances and requirements. There are no time restrictions and Welsh second language affords opportunities to develop and refine communication skills across the curriculum.

### **Developing a Skills focus**

Your scheme of work should ensure that learners have the opportunities to develop the three language skills of Oracy, Reading and Writing as identified in the programmes of study for Welsh second language. Progress in Oracy, Reading and Writing should form a relevant and realistic experience through which learners are able to develop language skills for life.

**The following questions could be useful as a guide to planning and developing a skills focus:**

- Are continuity and progression of skills built into the scheme of work?
- Does the lesson provide opportunities to develop all language skills? Is the coverage of skills equally balanced? Are there opportunities to integrate all language skills?
- What is the purpose of this activity? Does this activity introduce a new skill, consolidate a skill or apply and extend a skill?
- Does the approach allow learners to build upon the language and skills already acquired?
- Does the approach promote developing thinking, allowing learners to think for themselves, ensuring that they understand what they are doing and that they are able to see how the language works?

### **Implementing the Range**

The contexts selected for your scheme of work should cover those listed under the heading Range in the programmes of study. This section has been designed to ensure balance and breadth for learners at each key stage. In designing your scheme of work, the

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eich helpu chi i gynllunio ar gyfer addysgu'r rhaglenni astudio diwygiedig fel eu bod yn berthnasol ac yn ysgogol i bob dysgwr, hynny yw canolbwyntio ar y dysgwr. Dylech chi gynllunio i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau trwy amrywiaeth eang o gyd-destunau a nodir o dan y pennawd Ystod. Dylech chi ddefnyddio'r Sgiliau a'r Ystod fel fframwaith hyblyg i ddewis cyd-destunau ac i ddatblygu gweithgareddau, a fydd yn berthnasol ac yn ysgogol i'ch dysgwyr.

Mae rhyddid gan ysgolion i drefnu a chyflwyno'r cwricwlwm mewn dull sy'n gweddu i'w hamgylchiadau a'u gofynion. Does dim cyfyngiadau amser, ac mae Cymraeg ail iaith yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a mireinio sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

## Datblygu ffocws ar Sgiliau

Dylai eich cynllun gwaith sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'r tri sgil iaith, sef Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu fel maen nhw wedi'u nodi yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg ail iaith. Dylai cynnydd mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu fod yn brofiad perthnasol a realistig, a thrwyddo dylai dysgwyr allu datblygu sgiliau iaith o'r crud i'r bedd.

**Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol ar gyfer arwain eich gwaith cynllunio ac i ddatblygu ffocws ar sgiliau:**

- Oes parhad a dilyniant ar gyfer sgiliau wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith?
- Ydy'r wers hon yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu pob sgil iaith? Ydy'r sgiliau'n cael sylw cytbwys? Oes cyfleoedd i integreiddio'r holl sgiliau iaith?
- Beth yw pwrpas y gweithgaredd hwn? Ydy'r gweithgaredd hwn yn cyflwyno sgil newydd, yn atgyfnerthu sgil neu'n cymhwyso ac yn ymestyn sgil?
- Ydy'r ymagwedd yn caniatáu i'r dysgwyr adeiladu ar yr iaith a'r sgiliau sydd ganddyn nhw eisoes?
- Ydy'r ymagwedd yn hybu datblygu meddwl, yn caniatáu i'r dysgwyr feddwl drostyn nhw eu hunain, gan sicrhau eu bod yn deall yr hyn y maen nhw'n ei wneud ac yn ystyried sut mae'r iaith yn gweithio?

## Gweithredu'r Ystod

Dylai'r cyd-destunau a ddewisir ar gyfer eich cynllun gwaith gynnwys y rhai sydd wedi'u rhestru o dan y pennawd Ystod yn y rhaglenni astudio. Mae'r adran hon wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau cydbwysedd ac ehangder i'r dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol.

focus should be on the learner, and, in selecting various contexts, you should ask the question, 'How relevant is this context for learners in this school?'. The Range is designed to offer flexibility for you to choose topics and approaches that will be relevant, stimulating and interesting for your learners. You may therefore cover the range in a variety of ways.

**The following questions could be useful when planning the delivery of the range:**

- Are there appropriate opportunities to cover the whole range of Oracy, Reading and Writing at all levels?
- Are there any contexts that are not covered?
- Does the approach encourage learners to transfer language, knowledge and skills from one context to another?
- Does the approach give learners opportunities to develop their language by responding in Welsh to listening and reading stimuli?

## **The learning environment**

Learners learn best in an environment that is both supportive and encouraging. Learners do not learn if they are insecure or are afraid to take risks and make mistakes. They are most successful at experimenting with new skills and ideas, reflecting and remembering when they are in a supportive atmosphere where they feel confident that their ideas and views are valued and where they are encouraged to take risks in their thinking.

There is evidence that learners understand the work and make better progress when they take an active role rather than a passive role in the learning, e.g. speaking the language in purposeful situations rather than listening to the teacher. The learning needs to be exciting, challenging and creative. Learners are more successful when they understand what they need to do to improve and how they can do this.

**The following questions could be useful when planning the delivery of the language skills within a range of contexts:**

- Are there opportunities for learners to work in a variety of settings, individually, in small groups and as a whole class and to take an active role in their learning?
- Does the approach involve all learners, allowing for the needs of individual learners? Are there appropriate opportunities for differentiation?



Wrth baratoi eich cynllun gwaith, dylech ganolbwyntio ar y dysgwr, ac wrth ddethol y gwahanol gyd-destunau, dylech ofyn y cwestiwn 'Pa mor berthnasol yw'r cyd-destun hwn ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol hon?'. Mae'r Ystod wedi'i chynllunio i gynnig hyblygrwydd i chi ddewis topigau ac ymagweddau a fydd yn berthnasol, yn ysgogol ac yn ddiddorol i'ch dysgwyr. Felly, mae'n bosib i chi ymdrin â'r ystod mewn amrywiaeth o ffyrdd.

**Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r ystod:**

- Oes cyfleoedd priodol i ymdrin â'r ystod lawn o Lafaredd, Darllen ac Ysgrifennu ar bob lefel?
- Oes cyd-destunau sydd heb gael eu cynnwys?
- Ydy'r ymagwedd yn annog y dysgwyr i drosglwyddo iaith, gwybodaeth a sgiliau o'r naill gyd-destun i'r llall?
- Ydy'r ymagwedd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu iaith dysgwyr yn gyson drwy ymateb i sbardunau gwrando a darllen drwy gyfrwng y Gymraeg?

## Yr amgylchedd dysgu

Bydd dysgwyr yn dysgu orau mewn awyrgylch sy'n cynnig cefnogaeth ac anogaeth. Fydd dysgwyr ddim yn dysgu os ydyn nhw'n ansicr neu'n ofni mentro a gwneud camgymeriadau. Maen nhw'n arbrofi â sgiliau a syniadau newydd, yn myfyrio ac yn cofio orau mewn awyrgylch cefnogol lle maen nhw'n teimlo'n hyderus bod eu syniadau a'u barn yn cael eu gwerthfawrogi a lle maen nhw'n cael eu hannog i fentro yn eu gwaith meddwl.

Mae tystiolaeth bod dysgwyr yn deall y gwaith ac yn gwneud gwell cynnydd wrth ymgymryd â rôl weithredol yn y dysgu yn hytrach nag un oddefol, e.e. siarad yr iaith mewn sefyllfa bwrpasol yn hytrach na gwrando ar yr athro neu'r athrawes. Mae angen i'r dysgu fod yn gyffrous, yn heriol ac yn greadigol. Mae dysgwyr yn llwyddo'n well pan fyddan nhw'n deall beth y mae angen iddyn nhw ei wneud i wella a sut i wneud hyn.

**Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r sgiliau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau:**

- Oes cyfleoedd i'r dysgwyr weithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn unigol, mewn grwpiau bach ac fel dosbarth cyfan a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu?
- Ydy'r ymagwedd yn cynnwys pob dysgwr, gan ganiatáu ar gyfer anghenion y dysgwyr unigol? Oes cyfleoedd priodol ar gyfer gwahaniaethu?

- Will the lessons motivate and engage all learners? Are all learners sufficiently challenged?
- Is the approach appropriate for the 21st century?
- What have I learnt from previous planning? Have I tried something new in this scheme of work? Are there opportunities for challenging, creative and exciting tasks?
- Are there opportunities for learners to learn language that will be useful in a range of realistic day-to-day situations?
- Are there opportunities for independent listening, reading and viewing?
- Are there opportunities for listening, reading and viewing for pleasure?
- Does the approach allow learners to learn something new, or to transfer knowledge or skills to a new context in each lesson and to make appropriate progress?
- Are learners involved in each stage of the learning process?
- Are learners given appropriate opportunities to make use of a range of communication methods, including visual materials and ICT?
- Does the approach improve learners' confidence in the language?
- Is the atmosphere supportive?
- Do learners know what they need to do to improve and how to do it?
- Does the approach allow learners to evaluate their own and each others' work and to agree targets for the future?

## **Learning and teaching a second language**

Research shows that learners are more successful in their language acquisition if they do not merely learn the language as a subject but use the language as a tool for learning other topics or subjects. Teaching a new language in isolation does not usually ensure fluency, but using Welsh second language lessons to acquire new information creates opportunities for practical and purposeful language use. We see examples of this in Kirsty's profile (Writing activity 5) and in

- Fydd y gwersi'n ysgogi ac yn cadw sylw'r holl ddysgwyr? Oes digon o her i bob dysgwr?
- Ydy'r ymagwedd yn briodol i'r 21ain ganrif?
- Beth ydw i wedi'i ddysgu o'r cynllunio blaenorol? Ydw i wedi rhoi cynnig ar rywbeth newydd yn y cynllun gwaith hwn? Oes cyfleoedd ar gyfer tasgau heriol, creadigol a chyffrous?
- Oes cyfleoedd i'r dysgwyr ddysgu iaith a fydd yn ddefnyddiol mewn ystod o sefyllfaoedd realistig bob dydd?
- Oes cyfleoedd ar gyfer gwrando, darllen a gwylio annibynnol?
- Oes cyfleoedd ar gyfer gwrando, darllen a gwylio er pleser?
- Ydy'r ymagwedd yn caniatáu i'r dysgwyr ddysgu rhywbeth newydd, neu drosglwyddo gwybodaeth neu sgiliau i gyd-destun newydd ym mhob gwrs a gwneud cynnydd priodol?
- Ydy'r dysgwyr yn cael eu cynnwys ym mhob cam o'r broses ddysgu?
- Ydy'r dysgwyr yn cael cyfleoedd priodol i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu gan gynnwys deunyddiau gweledol a TGCh?
- Ydy'r ymagwedd yn gwella hyder y dysgwyr yn yr iaith?
- Ydy'r awyrgylch yn gefnogol?
- Ydy'r dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella a sut i wneud hynny?
- Ydy'r ymagwedd yn caniatáu i'r dysgwyr bwysu a mesur eu gwaith nhw eu hunain a gwaith eraill a chytuno ar dargedau at y dyfodol?

## Addysgu a dysgu ail iaith

Mae ymchwil yn dangos bod dysgwyr yn fwy llwyddiannus wrth godi iaith os ydyn nhw'n gwneud mwy na dim ond dysgu'r iaith fel pwnc, gan ei defnyddio fel cyfrwng i ddysgu topigau neu bynciau eraill. Nid yw addysgu iaith newydd mewn gwagle fel arfer yn sicrhau rhuglder, ond bydd defnyddio gwersi Cymraeg ail iaith i godi gwybodaeth newydd yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn ymarferol ac i bwrpas. Gwelwn enghreifftiau o hyn ym mhroffil Kirsty (Gweithgaredd ysgrifennu 5) ac yng ngwaith Freya (Gweithgaredd ysgrifennu 3) lle

Freya's work (Writing activity 3) where the learners use the language in an historical context. The language is used to gather information and is related to developing language skills that will be necessary for further studies. The challenge for the teacher in such situations is to ensure that the learners' limited language skills are utilised fully, enabling them to transfer their knowledge of language from one context to another. The teacher must identify effective strategies that compensate for the learners' limited language resources.

The same challenges face teachers of less able learners and there is always a temptation to speak to the learners in their first language rather than in the target language. On the DVD, there are examples of a teacher working with Ethan and a group of Key Stage 3 learners with few language resources. A striking feature of these clips is that the teacher does not need to translate everything to English for the learners to understand. Rephrasing and highlighting key points is all that is required in this case. The learning process can also be facilitated by the use of a wide range of visual aids since they can provide a wealth of information using only a few words.

Effective planning of learning and teaching Welsh second language involves collaboration between colleagues across key stages and across subjects.

**There are already examples of good practice in some clusters that ensure progression of language skills and knowledge and avoid unnecessary repetition and duplication. These include:**

- **a pack of activities on a particular theme developed by the cluster schools.** Learners begin the work during their last term in Year 6 and complete the work in their new school at the beginning of Year 7
- **agreement on the themes and language items and forms to be taught by the cluster primary schools.** The partner schools meet to agree on the language forms to be presented within specific themes. The primary schools are free to decide how to deliver these
- **secondary school transitional teachers deliver weekly Welsh lessons to Year 6 learners during the summer term.** The secondary school teachers work with the primary school staff, who continue to teach Welsh during the remainder of the week. This arrangement provides an opportunity for the teachers and the learners to get to know each other before the learners transfer to the secondary school.

mae'r dysgwyr yn defnyddio'r iaith mewn cyd-destun hanesyddol. Mae'r iaith yn cael ei defnyddio i gasglu gwybodaeth ac mae'n gysylltiedig â datblygu sgiliau iaith y bydd eu hangen at astudiaethau pellach. Yr her i'r athro neu'r athrawes mewn sefyllfa fel hon yw sicrhau bod sgiliau iaith cyfyngedig y dysgwyr yn cael eu defnyddio i'r eithaf gan eu galluogi i drosglwyddo'u gwybodaeth o iaith o'r naill gyd-destun i'r llall. Rhaid i'r athro neu'r athrawes ddod o hyd i strategaethau effeithiol sy'n gwneud iawn am ddiffyg adnoddau iaith y dysgwyr.

Mae'r un her yn wynebu athrawon y dysgwyr lleiaf galluog ac mae yna demtasiwn bob amser i siarad â'r dysgwyr yn eu hiaith gyntaf yn hytrach nag yn yr iaith darged. Ar y DVD, gwelir enghreifftiau o athrawes sy'n gweithio gydag Ethan a grŵp o ddysgwyr prin eu hiaith yng Nghyfnod Allweddol 3. Un nodwedd drawiadol yn y clipiau hyn yw nad oes angen i'r athrawes gyfieithu popeth i'r Saesneg er mwyn i'r dysgwyr ddeall. Y cyfan y mae ei angen yn yr achos hwn yw aralleirio a phwysleisio'r pwyntiau allweddol. Gall y broses ddysgu gael ei hwyluso hefyd drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o gynorthwyon gweledol gan fod y rhain yn gallu rhoi cyfoeth o wybodaeth mewn ychydig eiriau.

Mae cynllunio effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith yn golygu cydweithredu rhwng cydweithwyr ar draws cyfnodau allweddol ac ar draws pynciau.

**Mae enghreifftiau o arferion da sy'n sicrhau dilyniant mewn gwybodaeth a sgiliau iaith ac sy'n osgoi ailadrodd a dyblygu diangen ar gael eisoes mewn rhai clystyrau. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- **pecyn o weithgareddau ar thema benodol a ddatblygwyd gan y clwstwr o ysgolion.** Bydd y dysgwyr yn dechrau'r gwaith yn ystod eu tymor olaf ym Mlwyddyn 6 ac yn gorffen y gwaith yn eu hysgol newydd ar ddechrau Blwyddyn 7
- **cytuno ar y themâu a'r eitemau a'r ffurfiau iaith sydd i'w haddysgu gan yr ysgolion cynradd yn y clwstwr.** Bydd y partneriaid yn cyfarfod i gytuno ar y ffurfiau i'w cyflwyno o fewn themâu penodol. Mae'r ysgolion cynradd yn rhydd i benderfynu sut i gyflwyno'r ffurfiau hyn
- **athrawon pontio'r ysgolion uwchradd yn rhoi gwersi Cymraeg wythnosol i ddysgwyr Blwyddyn 6 yn ystod tymor yr haf.** Bydd yr athrawon uwchradd yn cydweithio ag athrawon yr ysgolion cynradd sy'n parhau i roi gwersi Cymraeg weddill yr wythnos. Mae'r trefniant hwn yn gyfle i'r athrawon a'r dysgwyr ddod i adnabod ei gilydd cyn i'r dysgwyr drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

## Welsh second language and skills across the curriculum

A non-statutory *Skills framework for 3 to 19-year-olds in Wales* has been developed in order to provide guidance about continuity and progression in developing thinking, communication, ICT and number for learners from 3 to 19.

At Key Stages 2 and 3, learners should be given opportunities to build on skills they have started to acquire and develop during the Foundation Phase. Learners should continue to acquire, develop, practise, apply and refine these skills through group and individual tasks in a variety of contexts across the curriculum. Progress can be seen in terms of the refinement of these skills and by their application to tasks that move from: concrete to abstract; simple to complex; personal to the 'big picture'; familiar to unfamiliar; and supported to independent and interdependent.

Icons have been used in the Welsh Order to signal explicit requirements for the development of skills and learning across the curriculum. However, in planning a scheme of work relevant for learners you will identify other opportunities to enrich skills and learning development.

### Developing thinking



Learners develop their thinking across the curriculum through the processes of **planning**, **developing** and **reflecting**.

In Welsh second language, learners will have opportunities to:

- think creatively and critically
- gather, sort and analyse information, discuss, draw conclusions and form opinions
- reflect upon what they have learnt in one context and apply the knowledge, language and skills to different situations and contexts
- explore, plan, develop and reflect upon ideas through speaking, reading and writing, responding to their own work as well as that of others
- reflect upon their own performance and set goals.

Many of the activities in the profiles provide opportunities to develop one or more of these skills.

## Cymraeg ail iaith a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; ac o'r dibynol i'r annibynol a'r cyd-ddibynol.

Mae eiconau wedi'u defnyddio yn y Gorchymyn pwnc i dynnu sylw at ofynion penodol ar gyfer datblygu sgiliau a dysgu ar draws y cwricwlwm. Er hynny, wrth gynllunio cynllun gwaith sy'n berthnasol i'ch dysgwyr chi, cewch ddewis defnyddio cyfleoedd eraill i gyfoethogi sgiliau a datblygiadau mewn dysgu.

### Datblygu meddwl



Bydd dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy brosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn Cymraeg ail iaith, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- feddwl yn greadigol ac yn feirniadol
- casglu, didoli a dadansoddi gwybodaeth, trafod, tynnu casgliadau a ffurfio barn
- myfyrio ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu mewn un cyd-destun a chymhwyso'r wybodaeth, yr iaith a'r sgiliau at wahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau
- archwilio, cynllunio, datblygu a myfyrio ar syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu, gan ymateb i'w gwaith nhw eu hunain yn ogystal â gwaith pobl eraill
- myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a gosod nodau.

Mae llawer o'r gweithgareddau yn y proffiliau'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu un neu fwy o'r sgiliau hyn.

Examples within the profiles include:

- at Key Stage 3, Emily's Oracy activity 2, where the girls discuss, gather and analyse information to make decisions regarding arranging a sponsored walk
- at Key Stage 2, Freya's Writing activity 3, where she transfers language and diary writing techniques developed in an everyday context to an historical context.

### Developing communication



Learners develop their communication skills across the curriculum through the skills of **oracy, reading, writing** and **wider communication**.

In Welsh second language, all tasks will provide opportunities to develop one or more of these skills. They learn how to communicate effectively in a variety of situations and for a variety of purposes. As their confidence grows, they use more complex constructions and become more independent of the teacher.

Examples within the profiles include:

- at Key Stage 2, Freya's Oracy activity 4, where she uses her wider communication skills to bring the character she portrays to life
- at Key Stage 3, Emily's written work includes a wide variety of contexts, purposes and forms.

### Developing ICT



Learners develop their ICT skills across the curriculum by **finding, developing, creating and presenting information and ideas** and by using a wide range of equipment and software.

In Welsh second language, learners will have opportunities to:

- use ICT skills to access the internet to gather, send and receive information and to undertake a range of interactive tasks
- use appropriate software to check the accuracy of their work in Welsh



Mae'r enghreifftiau yn y proffiliau'n cynnwys:

- yng Nghyfnod Allweddol 3, gweithgaredd Llafaredd 2 Emily, lle mae'r merched yn trafod, yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â thaith gerdded noddedig
- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgaredd Ysgrifennu 3 Freya, lle mae'n trosglwyddo iaith a thechnegau ysgrifennu dyddiadur a datblygwyd mewn cyd-destun bob dydd i gyd-destun hanesyddol.

### Datblygu cyfathrebu



Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**.

Mewn Cymraeg ail iaith, bydd pob tasg yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu un neu fwy o'r sgiliau hyn. Byddan nhw'n dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac at amrywiaeth o ddibenion. Wrth i'w hyder gynyddu, byddan nhw'n defnyddio cystrawennau mwy cymhleth ac yn dod yn fwy annibynnol ar yr athro neu'r athrawes.

Mae'r enghreifftiau yn y proffiliau'n cynnwys:

- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgaredd Llafaredd 4 Freya, lle mae'n defnyddio'i sgiliau cyfathrebu ehangach i ddod â'r cymeriad y mae'n ei bortreadu yn fyw
- yng Nghyfnod Allweddol 3, mae gwaith ysgrifenedig Emily yn cynnwys amrywiaeth mawr o gyd-destunau, pwrpasau a ffurfiau.

### Datblygu TGCh



Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn Cymraeg ail iaith bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- ddefnyddio sgiliau TGCh i gyrchu'r rhyngrwyd er mwyn casglu, anfon a derbyn gwybodaeth ac i ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau rhyngweithiol
- defnyddio meddalwedd briodol i wirio bod eu gwaith Cymraeg yn gywir

- select appropriate software to organise information
- select appropriate programs to enhance their presentations or findings.

Examples within the profiles include:

- at Key Stage 2, Freya's Writing activity 4, where she uses the internet to gather information and then uses ICT to organise and improve her presentation and findings
- at Key Stage 3, Emily's Writing activity 2, where she utilises her ICT skills to download photographs to illustrate her report and then to set out her work in an appropriate format.

### Developing number



Learners develop their number skills across the curriculum by **using mathematical information, calculating, and interpreting and presenting findings.**

In Welsh second language, learners will have opportunities to:

- learn number rhymes
- use cardinal and ordinal numbers
- order events in time
- use measures and money
- gather information in a variety of ways including questionnaires
- access, select, record and present data in a variety of formats.

Examples within the profiles include:

- at Key Stage 3, Ethan's Oracy activity 4, when he plays the role of the waiter in the café, taking orders and billing customers
- at Key Stage 2, Kirsty's Oracy activity 2, where she uses a questionnaire to gather data and to make a decision regarding the most suitable leisure club for the customer in the role playing exercise.

- dewis meddalwedd briodol i drefnu gwybodaeth
- dewis rhaglenni priodol i wella'u cyflwyniadau neu eu canfyddiadau.

Mae'r enghreifftiau yn y proffiliau'n cynnwys:

- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgaredd Ysgrifennu 4 Freya, lle mae'n defnyddio'r rhyngwyd i gasglu gwybodaeth ac yna'n defnyddio TGCh i drefnu a gwella'i chyflwyniad a'i chanfyddiadau
- yng Nghyfnod Allweddol 3, gweithgaredd Ysgrifennu 2 Emily, lle mae'n defnyddio ei sgiliau TGCh i lawr lwytho ffotograffau i ddarlunio'i hadroddiad ac yna'n gosod ei gwaith ar fformat priodol.

### Datblygu rhif



Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **dddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau.**

Mewn Cymraeg ail iaith, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- ddysgu odlau rhif
- defnyddio rhifolion a threfnolion
- gosod digwyddiadau yn eu trefn amser
- defnyddio mesurau ac arian
- casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys holiaduron
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn amrywiaeth o fformatau.

Mae'r enghreifftiau yn y proffiliau'n cynnwys:

- yng Nghyfnod Allweddol 3, gweithgaredd Llafaredd 4 Ethan, wrth iddo chwarae rôl y gweinydd yn y caffi, lle mae'n cymryd archebion a rhoi bil i'r cwsmeriaid
- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgaredd Llafaredd 2 Kirsty, lle mae'n defnyddio holiadur i gasglu data a gwneud penderfyniad am y clwb hamdden a fyddai'n fwyaf addas i'r cwsmer yn yr ymarfer chwarae rôl.

## Welsh second language and learning across the curriculum



Curriculum 2008 provides opportunities for the development of the Welsh Assembly Government's policies and cross-curricular themes, such as the Curriculum Cymreig, personal and social education and careers and the world of work, which includes equal opportunities, food and fitness and sustainable development.

At Key Stages 2 and 3, learners should be given opportunities to build on the experiences gained during the Foundation Phase, and to promote their knowledge and understanding of Wales, their personal and social development and well-being, and their awareness of the world of work.

The DVD contains a number of examples of activities where learners discuss matters related to these issues.

Examples within the profiles include:

- at Key Stage 2, Gareth's Oracy activity 1, where he uses the map of Wales for the weather forecast
- at Key Stage 2, Freya's Reading activity 2, where she discusses the poem *Sbwriel*
- at Key Stage 3, Ethan and Laura's Oracy activity 3, where they discuss healthy eating.

At Key Stage 4, learners' knowledge and understanding should be developed and applied within the contexts of their individual 14–19 pathways, including the Learning Core.



### Curriculum Cymreig



All Welsh second language activities provide opportunities for learners to develop the Curriculum Cymreig. Language is obviously addressed in every activity, but there are also examples in the guidance of opportunities to learn about other aspects, e.g. the geographical, environmental and historical characteristics of Wales.

Examples within the profiles include:

- at Key Stage 3, Ethan's Oracy activity 1, where he conveys information about his local area
- at Key Stage 2, Freya's Writing activities 3 and 4, where she writes about life on the Mimosa and prepares an information leaflet on the Caerphilly area.

## Cymraeg ail iaith a dysgu ar draws y cwricwlwm



Mae Cwricwlwm 2008 yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu polisiau a themâu trawsgwricwlaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis y Cwricwlwm Cymreig, addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaedd a'r byd gwaith, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd a datblygiad cynaliadwy.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Mae'r DVD yn cynnwys nifer o enghreifftiau o weithgareddau lle mae'r dysgwyr yn trafod materion sy'n ymwneud â'r pynciau hyn.

Mae'r enghreifftiau yn y proffiliau'n cynnwys:

- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgaredd Llafaredd 1 Gareth, lle mae'n defnyddio'r map o Gymru ar gyfer rhagolygon y tywydd
- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgaredd Darllen 2 Freya, lle mae'n trafod y gerdd *Sbwriel*
- yng Nghyfnod Allweddol 3, gweithgaredd Llafaredd 3 Ethan a Laura, lle maen nhw'n trafod bwyta'n iach.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr gael eu datblygu a'u cymhwyso o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.



### Y Cwricwlwm Cymreig



Mae holl weithgareddau Cymraeg ail iaith yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig. Mae'n amlwg bod iaith yn cael sylw ym mhob gweithgaredd, ond ceir enghreifftiau yn y canllawiau hefyd o gyfleoedd i ddysgu am agweddau eraill, e.e. nodweddion daearyddol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru.

Mae'r enghreifftiau yn y proffiliau'n cynnwys:

- yng Nghyfnod Allweddol 3, gweithgaredd Llafaredd 1 Ethan, lle mae'n cyfleu gwybodaeth am ei ardal leol
- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgareddau Ysgrifennu 3 a 4 Freya, lle mae'n ysgrifennu am fywyd ar y Mimosa ac yn paratoi taflen wybodaeth am ardal Caerffili.

## Personal and social education



Activities could provide opportunities for learners to:

- discuss their role as local and global citizens and the diversity of communities in Wales and other countries
- discuss issues such as the environment, sustainability, healthy eating and fitness
- consider the role and differing contribution of minority and global languages within society
- show respect to differing views and opinions and respond with sensitivity when discussing contentious issues
- explore and reflect upon texts with a variety of related themes.

Examples within the profiles include:

- at Key Stage 3, Laura's Oracy activity 3, where the learners discuss healthy eating
- at Key Stage 2, Freya's Reading activity 2, where the group uses a poem as a stimulus to discuss environmental issues.

## Careers and the world of work



Activities could provide opportunities for learners to develop valuable work-related skills and techniques, including:

- greeting and speaking to customers, asking and answering questions
- gathering information from Welsh-medium sources
- writing for a variety of vocational purposes
- problem solving and decision making.

## Addysg bersonol a chymdeithasol



Gallai'r gweithgareddau gynnig cyfleoedd i'r dysgwyr:

- drafod eu rôl fel dinasyddion lleol a byd-eang ac amrywiaeth y cymunedau yng Nghymru a gwledydd eraill
- trafod materion fel yr amgylchedd, cynaladwyedd, bwyta'n iach a ffitrwydd
- ystyried rôl a chyfraniadau gwahanol ieithoedd lleiafrifol a ieithoedd byd-eang yn y gymdeithas
- dangos parch at safbwyntiau a barn wahanol ac ymateb yn sensitif wrth drafod materion dadleuol
- archwilio a myfyrio ar destunau sy'n cynnwys amrywiaeth o themâu cysylltiedig.

Mae'r enghreifftiau yn y proffiliau'n cynnwys:

- yng Nghyfnod Allweddol 3, gweithgaredd Llafaredd 3 Laura, lle mae'r dysgwyr yn trafod bwyta'n iach
- yng Nghyfnod Allweddol 2, gweithgaredd Darllen 2 Freya, lle mae'r grŵp yn defnyddio cerdd yn sbardun i drafod materion amgylcheddol.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith



Gallai'r gweithgareddau gynnig cyfleoedd i'r dysgwyr feithrin sgiliau a thechnegau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys:

- cyfarch cwsmeriaid a siarad â nhw, gan ofyn ac ateb cwestiynau
- casglu gwybodaeth o ffynonellau cyfrwng Cymraeg
- ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion galwedigaethol
- datrys problemau a phenderfynu.





*Section  
Adran*

2

Expectations and progression in Welsh second language

Disgwyliadau a dilyniant mewn Cymraeg ail iaith

The purpose of this section is to help teachers come to a common understanding of the standards associated with Levels 1 to Exceptional Performance in the context of the Programmes of Study for Key Stages 2 and 3.

Key Stage 2 teachers should be familiar with the learning and teaching approaches of the Foundation Phase. At Key Stage 2, teachers should build upon this knowledge and use Welsh naturally in the classroom, integrating the language into all aspects of the curriculum and school life. This approach is also appropriate for Key Stage 3.

Good planning means maximising the skills that pupils have learnt in the context of other curricular areas during Welsh second language lessons. For example, in these profiles, Key Stage 2 and 3 pupils discuss literature, using skills acquired in English lessons. Pupils also make presentations, write postcards, formal and informal letters, etc. transferring knowledge and understanding from one curricular area to another. Whilst discussing poems such as *Sbwriel* by Zac Davies, teachers raise the pupils' awareness of environmental issues. The same is true of discussions on issues such as healthy eating and animal welfare.

## **Progression in Oracy**

There is broad progression in the level descriptions for Oracy. When starting to listen to words, phrases and short items spoken by familiar voices, pupils only demonstrate understanding. Initially, they do so via non-verbal means or orally (Level 1). As their understanding increases, they move on to listen to a series of short items (Level 3) and then to understand the main points of what is presented to them orally (Level 4). They also become familiar with different voices and respond via non-verbal means, orally or in writing. As pupils' listening skills develop, they listen to language in a range of situations, including spoken language (from Level 6 onwards) and respond by selecting specific details. There is further progress as pupils develop from listening to language in a range of familiar situations only (Level 6) to displaying an understanding of a range of language in a variety of contexts (Level 7). As they progress further, pupils' listening skills develop sufficiently to enable them to understand the features of spoken language used in a wide range of contexts, to summarise the meaning and to respond confidently to what is heard (Level 8 and Exceptional Performance).

Bwriad yr adran hon yw cynorthwyo athrawon i ddod i ddealltwriaeth gyffredin ynglŷn â'r safonau sydd ynghlwm wrth Lefelau 1 i Berfformiad Eithriadol yng nghyd-destun Rhaglenni Astudio Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Dylai athrawon Cyfnod Allweddol 2 fod yn gyfarwydd ag ymagweddau dysgu ac addysgu'r Cyfnod Sylfaenol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylai'r athrawon adeiladu ar yr wybodaeth hon a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn y dosbarth, gan integreiddio'r iaith ym mhob agwedd ar y cwricwlwm a bywyd yr ysgol. Mae'r ymagwedd hon yn briodol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 hefyd.

Mae cynllunio da yn golygu defnyddio i'r eithaf, mewn gwersi Cymraeg ail iaith, yr holl sgiliau y mae'r disgyblion wedi'u dysgu yng nghyd-destun meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, yn y proffiliau hyn, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn trafod llenyddiaeth, gan ddefnyddio sgiliau a godwyd mewn gwersi Saesneg. Mae'r disgyblion hefyd yn gwneud cyflwyniadau, yn ysgrifennu cardiau post, llythyrau ffurfiol ac anffurfiol ac ati, gan drosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r naill faes cwricwlaidd i'r llall. Wrth drafod cerddi fel *Sbwriel* gan Zac Davies, mae'r athrawon yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion amgylcheddol. Mae'r un peth yn wir am drafod materion megis bwyta'n iach a lles anifeiliaid.

## Dilyniant mewn Llafaredd

Gwelir dilyniant eang yn y disgrifiadau lefel ar gyfer Llafaredd. Wrth ddechrau gwranddo ar eiriau, ymadroddion ac eitemau byr a leferir gan leisiau cyfarwydd bydd disgyblion yn dangos dealltwriaeth yn unig. I ddechrau, byddan nhw'n gwneud hyn drwy ddulliau di-iaith neu ar lafar (Lefel 1). Wrth i'w dealltwriaeth gynyddu, byddan nhw'n datblygu i wrando ar gyfres o eitemau byr (Lefel 3) ac yna i ddeall prif bwyntiau materion a gyflwynir iddyn nhw ar lafar (Lefel 4). Byddan nhw hefyd yn ymgysgu'r ymgyfarwyddo â lleisiau amrywiol ac yn ymateb drwy ddulliau di-iaith, ar lafar neu'n ysgrifenedig. Wrth i sgiliau gwranddo disgyblion ddatblygu, byddan nhw'n gwranddo ar iaith mewn ystod o sefyllfaoedd gan gynnwys yr iaith lafar (o Lefel 6 ymlaen) ac yn ymateb drwy ddewis manylion penodol. Ceir cynnydd pellach wrth i ddisgyblion ddatblygu o wrando ar yr iaith mewn ystod o sefyllfaoedd cyfarwydd yn unig (Lefel 6) i ddangos dealltwriaeth o ystod o iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau (Lefel 7). Wrth wneud cynnydd pellach, bydd sgiliau gwranddo disgyblion yn datblygu'n ddigonol i'w galluogi i ddeall nodweddion yr iaith lafar a ddefnyddir mewn ystod eang o gyd-destunau, i grynhoi'r ystyr ac i ymateb yn hyderus i'r hyn a glywir (Lefel 8 a Pherfformiad Eithriadol).

Developing confidence in conversations is associated with progress in the way pupils express themselves when speaking, beginning with imitation and the use of simple words and phrases (Level 1) and progressing towards making some voluntary statements as well as asking and answering questions and expressing opinions simply (Level 3). As they make further progress, pupils display increased confidence when speaking. The accuracy and variety of phrases and the range of sentence patterns and verb forms used by pupils continuously increase as they make progress (Level 5). They develop, to discuss, ask purposeful questions and respond sensibly, agreeing or disagreeing with the opinions of others and providing reasons (Level 6). At the higher levels, the fluency of conversation and confidence of pupils when discussing in a range of situations develops further (Level 8 and Exceptional Performance). At these levels, pupils also vary their expression according to the requirements of the task and include considerable detail when presenting viewpoints and expanding on reasons given in support of those viewpoints. Fluency and accuracy are features of the higher levels.

### **Progression in Reading**

There is broad progression in the level descriptions for Reading. During the early stages, pupils display an understanding of simple and familiar words and phrases via oral or non-verbal responses (Levels 1 and 2). As their confidence as readers increases, pupils begin to read independently (Level 3) and read extracts aloud with some expression (Levels 4 and 5). As they progress, they cope with longer pieces covering familiar subjects and develop the skills of extracting information relevant to the task and expressing opinions simply (Level 5). Further progress is evident when pupils extract information from more than one source, including authentic texts (Level 6). Continuing progress is evidenced by pupils' ability to refer to plot, characters, structure and style to support their views (Levels 7 and 8). Further progress is demonstrated when pupils analyse content, themes, structure and style (Exceptional Performance).

Mae datblygu hyder wrth sgwrsio yn ymwneud â chynnydd yn y ffordd y mae disgyblion yn eu mynegi eu hunain wrth siarad gan ddechrau drwy ddynwared a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml (Lefel 1) a datblygu i wneud rhai gosodiadau'n wirfoddol yn ogystal â gofyn ac ateb cwestiynau a mynegi barn yn syml (Lefel 3). Wrth wneud cynnydd pellach, bydd disgyblion yn dangos mwy o hyder yn eu sgwrsio. Bydd cywirdeb ac amrywiaeth yr ymadroddion a'r ystod o batrymau brawddegol a ffurfiau berfol a ddefnyddir gan ddisgyblion yn ehangu'n gyson wrth iddyn nhw wneud cynnydd (Lefel 5). Byddan nhw'n datblygu i drafod, holi'n bwrpasol ac ymateb yn synhwyrol, gan gytuno neu anghytuno â barn eraill a rhoi rhesymau (Lefel 6). Ar y lefelau uwch, bydd rhwyddineb y sgwrsio a hyder disgyblion wrth drafod mewn ystod o sefyllfaoedd yn datblygu fwyfwy (Lefel 8 a Pherfformiad Eithriadol). Ar y lefelau hyn hefyd, bydd disgyblion yn amrywio mynegiant yn ôl gofynion y dasg ac yn cynnwys cryn dipyn o fanylion wrth gyflwyno safbwyntiau ac wrth ymhelaethu ar resymau er mwyn cefnogi'r safbwyntiau hynny. Mae rhwyddineb a chywirdeb yn nodweddion ar y lefelau uchaf.

## **Dilyniant mewn Darllen**

Gwelir dilyniant eang yn y disgrifiadau lefel ar gyfer Darllen. Yn y camau cynnar, bydd disgyblion yn dangos dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion syml a chyfarwydd drwy ymatebion llafar neu ddi-iaith (Lefelau 1 a 2). Wrth i'w hyder fel darllenwyr gynyddu, bydd disgyblion yn dechrau darllen yn annibynnol (Lefel 3) ac yn datblygu i ddarllen darnau ar goedd gyda mynegiant (Lefelau 4 a 5). Wrth ddatblygu byddan nhw'n gallu ymdopi â darnau hwy sy'n ymdrin â phynciau sy'n gyfarwydd iddyn nhw gan ddatblygu'r sgiliau o godi gwybodaeth berthnasol i'r dasg a mynegi barn yn syml (Lefel 5). Gwelir cynnydd pellach pan fydd disgyblion yn codi gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell gan gynnwys rhai testunau dilys (Lefel 6). Amlygir tystiolaeth o barhad yn y cynnydd pan fydd disgyblion yn cyfeirio at blot, cymeriadau, adeiladwaith ac arddull i gefnogi eu safbwynt (Lefelau 7 ac 8). Amlygir cynnydd pellach pan fydd disgyblion yn dadansoddi cynnwys, themâu, adeiladwaith ac arddull (Perfformiad Eithriadol).

## **Progression in Writing**

There is broad progression in the level descriptions for Writing. Pupils begin to write by copying familiar words (Level 1), and then communicating simple factual and personal information that is within their experience (Levels 2 and 3). Increasingly, pupils link sentences, show some grasp of order and progression, structure their ideas and vary their patterns (Level 4). They make gradual progress until they can offer a simple explanation (Level 5). As they make further progress, they include more detail in their work and begin to use language to create effect (Level 6). This displays an awareness of the reader's needs and this skill is further developed as pupils use language deliberately to expand on familiar experiences and to correspond to the form and purpose of the work (Level 8). Further development is seen as pupils construct their arguments and provide consistent evidence using a range of natural Welsh vocabulary and constructions to produce complete, clear and organised work (Level 8 and Exceptional Performance).

## **Dilyniant mewn Ysgrifennu**

Gwelir dilyniant eang yn y disgrifiadau lefel ar gyfer Ysgrifennu. Bydd disgyblion yn dechrau ysgrifennu drwy gopïo geiriau cyfarwydd (Lefel 1) ac yna'n cyfleu gwybodaeth bersonol a ffeithiol syml sydd o fewn eu profiad (Lefelau 2 a 3). Yn gynyddol, bydd disgyblion yn cysylltu brawddegau i greu dilyniant trefnus ac i strwythuro syniadau yn ogystal ag amrywio patrymau (Lefel 4). Byddan nhw'n gwneud cynnydd graddol nes eu bod yn cynnig esboniad syml (Lefel 5). Wrth iddyn nhw wneud cynnydd pellach, byddan nhw'n cynnwys mwy o fanylion yn eu gwaith ac yn dechrau defnyddio iaith i greu effeithiau (Lefel 6). Dengys hyn ymwybyddiaeth o anghenion y darllenydd ac fe gaiff y sgil hwn ei ddatblygu ymhellach wrth i ddisgyblion ddefnyddio iaith yn fwriadol i fanylu ac i gyfateb â ffurf a phwrpas y gwaith (Lefel 8). Gwelir datblygiad pellach wrth i ddisgyblion adeiladu dadleuon a chynnig tystiolaeth yn gyson gan ddefnyddio ystod o eirfa a chystrawennau naturiol Gymraeg wrth gynhyrchu cyfanwaith clir a threfnus (Lefel 8 a Pherfformiad Eithriadol).





*Section  
Adran*

# 3

Making judgements at the end of Key Stages 2 and 3

Llunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3

This section describes how level descriptions can be used when making judgements about which level best describes a learner's overall performance at the end of Key Stages 2 and 3. **Please note that you will be required to provide a subject level for each Welsh second language pupil at the end of Key Stage 2 from 2009/10 onwards.**

## Subject level

Learners' levels for the three attainment targets are combined to provide a subject level. They are weighted as follows:

Key Stage 2		Key Stage 3	
Attainment target	Weighting	Attainment target	Weighting
Oracy	70%	Oracy	60%
Reading	15%	Reading	20%
Writing	15%	Writing	20%

Schools should record data at attainment target level using their data management system (MIS). Then MIS will automatically calculate the subject level.

**Here is an example:** To calculate the subject level for the Key Stage 2 pupil below, total column (c) then divide by the total of column (b) ( $44 \div 10 = 4.4$ ). Round to the nearest whole number. This pupil has attained Level 4.

Attainment target	Level (a)	Weighting (b)	Level x weighting (c)
Oracy	5	7	35
Reading	3	1.5	4.5
Writing	3	1.5	4.5
<b>Total</b>		<b>10</b>	<b>44</b>

Mae'r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad cyffredinol dysgwyr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. **Cofiwch y bydd yn ofynnol i chi roi lefel pwnc i bob disgybl mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 o 2009/10 ymlaen.**

### Lefel pwnc

Cyfunir lefelau'r dysgwyr yn y tri tharged cyrhaeddiad i roi lefel pwnc. Wrth eu cyfuno fe'u pwysolir fel a ganlyn:

#### Cyfnod Allweddol 2

Targed cyrhaeddiad	Pwysoli
Llafaredd	70%
Darllen	15%
Ysgrifennu	15%

#### Cyfnod Allweddol 3

Targed cyrhaeddiad	Pwysoli
Llafaredd	60%
Darllen	20%
Ysgrifennu	20%

Dylai ysgolion gofnodi data ar lefel targed cyrhaeddiad gan ddefnyddio eu systemau rheoli gwybodaeth (MIS). Yna bydd MIS yn cyfrifo'r lefel pwnc yn awtomatig.

#### Dyma enghraifft:

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y dysgwyr isod o Gyfnod Allweddol 2, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) ( $44 \div 10 = 4.4$ ). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 4.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x pwysiad (c)
Llafaredd	5	7	35
Darllen	3	1.5	4.5
Ysgrifennu	3	1.5	4.5
<b>Cyfanswm</b>		<b>10</b>	<b>44</b>

## The profiles

You may find the following points useful when considering the profiles in this section.

- The learner profiles are not presented as a model for how you should collect evidence about your learners. Although you will want to be able to explain why you have awarded a particular level to a learner at the end of the key stage, there is no requirement for judgements to be explained in this way or supported by detailed collections of evidence on each learner. Decisions about collecting evidence, and about its purpose and use, are matters for teachers working within an agreed school policy.
- The commentaries on the pieces of work have been written to explain the judgement made about a learner's performance. They are not intended as an example of a report to parents/guardians.
- The materials in each learner profile can only represent a small part of the information and experiences that make up a teacher's knowledge of each learner. They do not reflect the extent of the knowledge of each learner that you will have built up over time across a range of different contexts. You will use this knowledge to make a rounded judgement about the level that best fits each learner's performance.
- You will arrive at judgements by taking into account strengths and weaknesses in performance across a range of contexts and over a period of time. Opportunities will need to be provided for learners to demonstrate attainment in all aspects of the level descriptions.
- Some of your learners may need to use a range of alternative forms of communication to show what they know, what they understand and what they can do.

## Y proffiliau

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw'n ofynnol i'ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

## Gareth



Gareth is a 10-year-old learner in Key Stage 2.

He has only been learning Welsh for two terms, having recently moved to North Wales from England. He has been integrated into a class of 24 pupils who are taught Welsh by their class teachers. During his short time at the primary school, Gareth has enjoyed the Welsh lessons and has responded with enthusiasm.

His teachers know much more about Gareth's performance than can be included here. However, this profile has been selected to illustrate characteristic features of Gareth's work across a range of activities. Each example is accompanied by a brief commentary to provide a context and indicate particular qualities in the work.

### Oracy

#### Activity 1 | Clip 1 – Presentation: *Y tywydd*

Pupils discuss the weather every day. They are used to undertaking a variety of activities such as keeping a weather diary and preparing forecasts, etc.

In this activity, Gareth is talking about the weather. He begins by greeting his audience and then talks about the weather in the present tense using the pattern, 'Mae hi'n...'. He uses weather-related vocabulary with confidence and extends his language skills by using the future tense to forecast the weather, 'Yfory, bydd hi'n...'. In this activity, Gareth communicates simple factual information clearly. Gareth's pronunciation and intonation are not always correct and he hasn't mastered the 'll' and 'ch' sounds yet.

#### Activity 2 | Clip 2 – Answer questions: *Helpwr Heddiw*

Every day, different members of the class take on the role of *Helpwr Heddiw*. Pupils are familiar with the routine and are comfortable with the role they take.

## Gareth



Mae Gareth yn ddysgwr 10 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Dim ond ers dau dymor mae e wedi bod yn dysgu Cymraeg gan ei fod newydd symud i Ogledd Cymru o Loegr. Mae wedi ei integreiddio i ddosbarth o 24 disgybl sy'n derbyn eu gwersi Cymraeg gan eu hathrawon dosbarth. Yn ystod ei gyfnod byr yn yr ysgol gynradd, mae Gareth wedi mwynhau'r gwersi Cymraeg gan ymateb gyda brwdfrydedd.

Mae ei athrawon yn gwybod llawer mwy am berfformiad Gareth nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Gareth ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

### Llafaredd

#### Gweithgaredd 1 | Clip 1 – Cyflwyniad: Y tywydd

Mae'r disgyblion yn trafod y tywydd bob dydd. Maen nhw'n gyfarwydd â gwneud amrywiaeth o weithgareddau megis cadw siart dywydd, paratoi rhagolygon, ac ati.

Yn y gweithgaredd hwn, mae Gareth yn siarad am y tywydd. Mae'n dechrau drwy gyfarch ei gynulleidfa ac yna mae'n bwrw ymlaen i sôn am y tywydd yn y presennol gan ddefnyddio'r patrwm, 'Mae hi'n...'. Mae'n hollol gyffyrddus wrth ddefnyddio geirfa'r tywydd ac yna mae'n ymestyn ei sgiliau iaith drwy roi'r rhagolygon gan ddefnyddio'r dyfodol, 'Yfory, bydd hi'n...'. Yn y gweithgaredd hwn, mae Gareth yn cyfleu gwybodaeth ffeithiol syml yn glir. Mae Gareth yn cael peth trafferth i ynganu a goslefu'n briodol a dydy e ddim eto wedi meistrolï seiniau llythrennau 'll' ac 'ch'.

#### Gweithgaredd 2 | Clip 2 – Ateb cwestiynau: Helpwr Heddiw

Bob dydd mae aelod gwahanol o'r dosbarth yn cymryd rôl Helpwr Heddiw. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â'r drefn ac yn hollol gyffyrddus wrth gymryd at y rôl.

In this activity, Gareth is *Helpwr Heddiw*. Other members of the class ask him impromptu questions. Gareth demonstrates a good understanding of a variety of questions asked by familiar voices and, on the whole, responds appropriately. His teacher encourages him to use full sentences and to correct himself if he makes a mistake. When answering the questions, Gareth shows that he can vary vocabulary and language patterns, including the use of more than one tense of the verb, e.g. 'Gareth ydw i', 'Es i i'r sinema'. Gareth's pronunciation and intonation are not always understandable.

### Activity 3 | Clip 3 – Group game: *Snap*

All pupils irrespective of the language resources at their disposal are familiar with working independently of the teacher. They have a variety of games that they can play at specified times or when they have some spare time.

In this activity, the pupils are playing snap. As well as using vocabulary associated with the game, 'tro fi' and 'dy dro di', Gareth and the other pupils identify and state the name of the item on the card as they turn it over. The group works independently and Gareth uses simple words and phrases.

### Activity 4 | Clip 4 – Class game: *Mr Blaidd*

The teacher takes advantage of every opportunity to practice the language with the pupils. Often, when weather permits, they play language games on the yard.

In this activity, the pupils are playing 'Faint o'r gloch 'dy, Mr Blaidd?'. Gareth answers the question, 'Faint o'r gloch 'dy, Mr Blaidd?' reasonably clearly each time. His pronunciation and intonation are reasonably understandable and he communicates simple information.



Yn y gweithgaredd hwn, Gareth yw Helpwr Heddiw. Mae aelodau eraill y dosbarth yn gofyn cwestiynau iddo'n fyrfyr. Mae Gareth yn dangos dealltwriaeth dda o amrywiaeth o gwestiynau a leferir gan leisiau cyfarwydd ac yn ymateb yn briodol fel arfer. Mae ei athrawes yn ei annog i ddefnyddio brawddegau llawn ac i hunan-gywiro pan fydd yn gwneud camgymeriad. Wrth iddo ateb y cwestiynau, mae Gareth yn llwyddo i amrywio peth ar eirfa a phatrymau, gan gynnwys defnyddio mwy nag un amser o'r ferf, e.e. 'Gareth ydw i', 'Es i i'r sinema.' Mae Gareth yn cael peth trafferth i ynganu a goslefu'n ddealladwy.

### **Gweithgaredd 3 | Clip 3 – Gêm grŵp: Snap**

Mae'r disgyblion i gyd, waeth faint o adnoddau iaith sydd ganddyn nhw, yn gyfarwydd â gweithio'n annibynnol ar yr athrawes. Mae ganddyn nhw amrywiaeth o gemau y gallan nhw eu chwarae mewn cyfnodau penodol neu pan fo munud sbâr ganddyn nhw.

Yn y gweithgaredd hwn, mae'r disgyblion yn chwarae snap. Yn ogystal â defnyddio geirfa'r gêm, sef 'tro fi' a 'dy dro di', mae Gareth a'r disgyblion eraill yn adnabod ac yn dweud beth yw'r eitem ar y cerdyn wrth ei droi drosodd. Mae'r grŵp yn gweithio'n annibynnol ac mae Gareth yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml.

### **Gweithgaredd 4 | Clip 4 – Gêm ddosbarth: Mr Blaidd**

Mae'r athrawes yn manteisio ar bob cyfle posibl i ymarfer yr iaith gyda'r disgyblion. Yn aml, pan fo'r tywydd yn caniatáu byddan nhw'n chwarae gemau iaith ar yr iard.

Yn y gweithgaredd hwn, mae'r disgyblion yn chwarae 'Faint o'r gloch 'dy, Mr Blaidd?'. Mae Gareth yn ateb y cwestiwn 'Faint o'r gloch 'dy, Mr Blaidd?' yn eithaf eglur bob tro. Mae'n ynganu ac yn goslefu'n weddol ddealladwy ac yn cyfleu gwybodaeth syml.

## Activity 5 | Listening and ticking the correct box: *Amser hamdden*



The teacher read out six sentences to the pupils. Their task was to tick the relevant image in each row. She read out each sentence twice.

Gareth manages to get all but one answer correct – he has mistaken 'pêl-rwyd' for 'pêl-droed'. His teacher said that he has difficulty differentiating between the two partly because of his inability to pronounce the words correctly. Gareth's excellent response to this activity demonstrates that he has understood short items spoken by a familiar voice.

## Reading

### Activity 1 | Clip 5 – Cloze: *Sami Samon* (Martin Jackman)

Before undertaking this activity, the teacher had read the book *Sami Samon* with the class. Then, in the following session, she used the interactive whiteboard to give pupils the opportunity to read aloud and to test their understanding ([www.ngfl-cymru.org.uk/sami\\_samon](http://www.ngfl-cymru.org.uk/sami_samon)). Gareth listened to individual pages being read and followed the text, after which he read the sentences aloud. The teacher then removed some of the words and asked Gareth to fill in the gaps using the correct words.

## Gweithgaredd 5

### Gwrando a thicio'r blwch cywir: Amser hamdden



Darllenodd yr athrawes chwech o frawddegau i'r disgyblion. Y dasg iddyn nhw oedd ticio'r llun perthnasol ym mhob rhes. Darllenodd y brawddegau i gyd yn eu tro, ddwywaith yr un.

Mae Gareth yn llwyddo i gael pob ateb ond un yn gywir. Mae e wedi cymysgu rhwng 'pêl-rwyd' a 'phêl-droed' ac yn ôl yr athrawes mae'n cael anhawster i wahaniaethu rhwng y ddau hyn yn rhannol am nad yw'n gallu ynganu'r geiriau'n gywir. Mae ymateb ardderchog Gareth i'r gweithgaredd hwn yn dangos ei fod wedi deall eitemau byr sy'n cael eu llefaru gan lais cyfarwydd.

## Darllen

### Gweithgaredd 1

#### Clip 5 – Cyfannu: *Sami Samon* (Martin Jackman)

Cyn gwneud y gweithgaredd hwn, roedd yr athrawes wedi darllen y llyfr *Sami Samon* gyda'r dosbarth. Yn y sesiwn dilynol, defnyddiodd y bwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ddarllen ar goedd a phrofi dealltwriaeth ([www.ngfl-cymru.org.uk/sami\\_samon](http://www.ngfl-cymru.org.uk/sami_samon)). Gwrandawodd Gareth ar dudalennau unigol yn cael eu darllen gan ddilyn y print ac wedyn darllenodd y brawddegau ar goedd. Yna, dileodd yr athrawes rai o'r geiriau gan ofyn i Gareth lenwi'r bylchau gyda'r geiriau cywir.

Gareth completes this activity very successfully. As the activity progresses and the teacher makes the task more challenging by removing more words, Gareth answers each question correctly, except two. The teacher does not correct him on the first occasion, but does so on the second. Gareth does, however, demonstrate an understanding of what he reads.

**Activity 2 | Matching words and pictures:  
Byd y Bêl (Eluned Charles, Cyfres y Gwdihw)**



As part of their work on the topic of Play Time, pupils learnt the names of various popular games. Their teacher was keen for them to experience reading an information book in Welsh to boost their confidence and she chose *Byd y Bêl* by Eluned Charles from *Cyfres y Gwdihw*. Different tasks were assigned to the groups, based on their ability and Gareth's group was asked to complete a matching words and pictures activity, as seen on the CAA website, ([www.caa-aber.org.uk/uploads/byd\\_y\\_bl.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/byd_y_bl.pdf)).

Gareth has managed to match five of the words and pictures correctly without any assistance. He demonstrates an understanding of the meaning of individual words.

**Activity 3 | Matching: Question and answer**

Matsia'r cwestiwn a'r ateb	
Beth wyt ti'n hoffi bwyta?	Dw i'n cael pen-blwydd ym mis Ionawr.
Pa y wyt ti?	Dw i'n hoffi Celo.
Wyt ti'n hoffi sgloedian?	Dw i'n ddeg oed.
Sut wyt ti?	Hang ydw i.
Faint ydy dy oed di?	Dw i'n bwyta tost.
Ble wyt ti'n byw?	Da iawn diolch.
Fryd mae dy ben-blwydd di?	Ydw, wrth gwrs.
Beth wyt ti'n hoffi yfed?	Dw i'n byw yn Abertawe.

During his short time in Wales, Gareth's Welsh lessons have focussed mainly on oral work. However, his teacher was keen for him to transfer his knowledge of the language acquired from oral work to his reading work. She chose eight questions and answers familiar to him from his oral work and asked him to match the questions and answers using different colours.

Mae Gareth yn gwneud hyn yn llwyddiannus iawn. Wrth i'r gweithgaredd fynd yn ei flaen ac wrth i'r athrawes wneud y dasg yn fwy heriol drwy ddileu mwy o'r geiriau, mae Gareth yn cael yr atebion i gyd ond dau yn gywir. Dydy'r athrawes ddim yn ei gywiro'r tro cyntaf ond mae'n gwneud hynny'r ail waith. Serch hynny, mae Gareth yn dangos dealltwriaeth o'r hyn mae'n ei ddarllen.



## Gweithgaredd 2 | Cyfateb llun a gair: *Byd y Bêl* (Eluned Charles, *Cyfres y Gwdihw*)

Fel rhan o'u gwaith ar y pwnc Amser Chwarae, bu'r disgyblion yn dysgu'r enwau am wahanol chwaraeon poblogaidd. Roedd eu hathrawes yn awyddus iddyn nhw gael y profiad o ddarllen llyfr gwybodaeth yn y Gymraeg er mwyn codi eu hyder ac felly dewisodd *Byd y Bêl* gan Eluned Charles o *Gyfres y Gwdihw*. Rhoddwyd tasgau gwahanol i'r grwpiau yn ôl eu gallu a gofynnwyd i grŵp Gareth gyfateb llun a gair, tasg o wefan CAA, ([www.caa-aber.org.uk/uploads/byd\\_y\\_bl.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/byd_y_bl.pdf)).

Mae Gareth wedi llwyddo i gyfateb pump o'r lluniau a'r geiriau'n gywir heb unrhyw gymorth. Mae'n dangos dealltwriaeth o ystyr geiriau unigol.

## Gweithgaredd 3 | Cyfateb: Cwestiwn ac ateb

Matsia'r cwestiwn a'r ateb	
Beth wyt ti'n hoffi bwyta?	Dw i'n cweil pen-blwydd ym mis Ionawr
Bwy wyt ti?	Dw i'n hoffi Cola.
Wyt ti'n hoffi sgolodan?	Dw i'n ddeig oed.
Sut wyt ti?	Hang ydw i.
Faint ydy dy oed di?	Dw i'n bwyta tost.
Ble wyt ti'n byw?	Da iawn diolch.
Fryd mae dy ben-blwydd di?	Ydw, wrth gwrs.
Beth wyt ti'n hoffi yfed?	Dw i'n byw yn Aberystwyth.

Gwaith llafar fu'n brif ffocws i wersi Cymraeg Gareth yn ystod ei gyfnod byr yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd ei athrawes yn awyddus iddo drosglwyddo'r wybodaeth am iaith oedd ganddo yn sgîl y profiad hwnnw i'w waith darllen. Dewisodd wyth o gwestiynau ac atebion a oedd yn gyfarwydd iddo ar lafar a gofynnwyd iddo gyfateb y cwestiynau â'r atebion gan ddefnyddio gwahanol liwiau.

Although Gareth was totally familiar with each of the questions and was able to answer them all orally, e.g. in his role as *Helpwr Heddiw*, he was less confident when reading them and attempting to match them to the answers. He has managed to match five out of the eight questions and answers correctly.

#### Activity 4 | Completing a plan: *Yn y dref*

As part of their work on The Area, the class learnt how to give and understand directions and also learnt vocabulary to describe locations. In this activity, the teacher gave the pupils a map containing gaps and a series of sentences. They were required to use the information in the sentences to complete the map. The class did not require assistance during the task itself as there had been sufficient previous preparation on the topic.

VN Y DREF					
Siop Chwarecon	Siop Ffrwythau a Llysiau	Siop y Coggydd	Cogydd	Yr Ysgol	
Y Stryd Fawr					
Siop Sgwlion	Fferylfa	Siop Gerddoiaeth	Siop Bapur	Stryd y Castell Pwll Nofio	
Y Stryd Newydd					
Hwnc	Siop dillad	Y Gemydd	Caffi		
Heol y Bont					

Mae'r siop dillad yn y Stryd Newydd.  
Mae siop y coggydd rhwng y siop ffrwythau a llysiau a'r cogydd.  
Mae'r siop bapur drws nesaf i'r siop gerddoiaeth.  
Mae'r siop chwarecon gyferbyn i'r hwnc.  
Mae'r pwll nofio wrth yr ysgol.

Gareth has completed the task with little difficulty. However, two of his answers are incorrect and there is some evidence he was rushing to finish. If he had taken more time and read through all the sentences, he might have realised that he had located the two buildings on *Y Stryd Newydd* incorrectly. He also needs to take more care to copy correctly. He has recognised a number of the words and phrases that were in the sentences and on the map.

Er bod Gareth yn hollol gyfarwydd â phob un o'r cwestiynau ac yn gallu eu hateb i gyd ar lafar, e.e. yn ei rôl fel Helpwr Heddiw, nid oedd mor hyderus wrth eu darllen a cheisio'u cyfateb gyda'r atebion. Mae wedi llwyddo i gyfateb pump allan o'r wyth cwestiwn ac ateb yn gywir.

#### Gweithgaredd 4 | Gorffen cynllun: Yn y dref

Fel rhan o'u gwaith ar Yr Ardal, dysgodd y dosbarth sut i roi ac i ddeall cyfarwyddiadau a geirfa i esbonio lleoliad. Rhoddodd yr athrawes fap â bylchau ynddo a chyfres o frawddegau i'r disgyblion. Y dasg oedd defnyddio'r wybodaeth yn y brawddegau i gwblhau'r map. Nid oedd angen cymorth ar y dosbarth yn ystod y dasg ei hun gan iddyn nhw wneud digon o baratoi blaenorol ar y pwnc.

YN Y DREF				
Siop Chwaraeon	Siop Firwythau a Llysiau	Siop y Cogydd	Cigydd	Yr Ysgol
	Y Stryd Fawr			
Siop Sgwdiau	Floriola	Siop Gerddoriaeth	Siop Bapur	Stryd y Castell
Harc	Siop dillad	Y Gemydd	Caffi	
		Heol y Bont		

Mae'r siop dillad yn y Stryd Newydd.  
Mae siop y cogydd rhwng y siop firwythau a llysiau a'r cigydd.  
Mae'r siop papur drws nesaf i'r siop gerddoriaeth.  
Mae'r siop chwaraeon gyferbyn â'r harc.  
Mae'r pwll nofo wedi yr ysgol.

Mae Gareth wedi llwyddo i gwblhau'r dasg heb lawer o anhawster. Fodd bynnag, mae wedi cael dau ateb yn anghywir ac mae peth tystiolaeth ei fod yn brysio i orffen. Pe bai wedi cymryd mwy o amser a darllen drwy'r brawddegau i gyd, efallai y byddai wedi sylweddoli ei fod wedi camleoli'r ddau adeilad ar Y Stryd Newydd. Yn ogystal, mae angen iddo gymryd mwy o ofal er mwyn copio'n gywir. Mae wedi adnabod nifer o'r geiriau a'r ymadroddion oedd yn y sbardun ac ar y map.

**Activity 5 | Answering multiple-choice questions:  
Vicky a Samuel**

In this activity, Gareth was required to tick the correct answers in a multiple-choice exercise. The group members had read the sentences aloud before undertaking the written exercise independently.

**VICKY**

Dyma Vicky. Mae llygod glas a gwddf golau hir gyda hi. Mae hi'n gwisgo top melyn a sgert mini oren. Mae eiddau penc ganddi hi.

1.	llygod				
2.	gwddf				
3.	top				
4.	sgert				
5.	eiddau				

**SAMUEL**

Hydi, Samuel ydychi. Ddwi'n mynd i'r ysgol yn y car gyda Dad ond ddwi'n seiclo adre gyda ffynhau. Rhaid i fi wsgo crys pŵl gyda gyda bathodyn yn ysgol, trowsus llafn ac eiddau du. Ddwi'n wrth fy mudd yn yr ysgol ond mae'r dillod yn affwily.

1.	mynd i'r ysgol				
2.	mynd adre				
3.	gwisgo				
4.	haffi ysgol?				
5.	dillod ysgol?				

Here, Gareth demonstrates an interest in short, simple pieces and goes on to read them. In the section about Vicky, he has managed to answer three out of five questions correctly. He appears to be familiar with the colours but he is unable to cope with colours within a phrase, e.g. in number 2 and number 4, he knows the words 'golau' and 'oren' but does not understand the words 'hir' and 'mini'. He also has a tendency to tick the first item that is linked in any way with the answer. This also occurs in the section about Samuel. 'Seiclo' and 'trowsus' are included in the correct answers in number 2 and number 3 but Gareth has not read to the end of the line to find every part of the answer.



## Gweithgaredd 5 | Ateb cwestiynau amlddewis: Vicky a Samuel

Y dasg i Gareth yma oedd ticio'r ateb cywir mewn ymarfer amlddewis. Roedd aelodau'r dosbarth wedi darllen y brawddegau ar goedd cyn mynd ati i wneud yr ymarfer ysgrifenedig yn annibynnol.

**VICKY**

Dyma Vicky. Mae llygend glas a gewllt golau hir gyda hi. Mae hi'n gwisgo top melyn a sgert mini oren. Mae eiddau penc ganddi hi.

1.	lygend				
2.	gwiall				
3.	top				
4.	sgert				
5.	eiddau				

**SAMUEL**

Hysb, Samuel ydych chi. De i'n mynd i'r ysgol yn y car gyda Dad ond de i'n seiclo adre gyda ffrendiau. Rhaid i fi wisgo crys polo glis gyda bathodyn yr ysgol, trowsus llafn ac eiddau bla. De i wrth fy mudd yn yr ysgol ond mae'r dillod yn effroley.


1.	mynd i'r ysgol				
2.	mynd adre				
3.	gwisgo				
4.	haffi ysgol?				
5.	dillod ysgol?				

Yma, mae Gareth yn dangos diddordeb mewn darnau byr, syml ac yn eu darllen. Yn yr adran ar Vicky, mae wedi llwyddo i gael tri allan o bump ateb yn gywir. Ymddengys ei fod yn adnabod y lliwiau ond dydy e ddim yn gallu ymdopi gyda lliwiau o fewn ymadrodd, e.e. yn rhif 2 a rhif 4, mae'n adnabod y geiriau 'golau' ac 'oren' ond dydy e ddim yn deall y geiriau 'hir' a 'mini'. Problem arall yw ei fod yn tueddu i dicio'r eitem gyntaf sydd â rhyw berthynas â'r ateb. Mae hyn yn digwydd hefyd yn yr adran ar Samuel. Mae 'seiclo' a 'trowsus' yn rhan o'r atebion cywir yn rhif 2 a rhif 3 ond dydy Gareth ddim wedi darllen i ddiwedd y llinell i ddod o hyd i bob elfen o'r ateb.


## Writing

### Activity 1 | Keeping a diary: *Y tywydd*

Gareth's teacher keeps a weather chart in the classroom. She often talks about the weather in Welsh in order to use incidental Welsh in the classroom. As a follow-up to this, the pupils were asked to keep a personal written weather chart for a week. Their charts included key vocabulary to help them and the pattern, 'Mae'n...', was visible on the wall to remind them how to talk about the weather.



Enw  
*Gareth*



**Dyddiadur y Tywydd**

	Bore	Pnawn
	Mae'n .....	Mae'n .....
Dydd Sul	<i>bwrw eira</i>	<i>rhew</i>
Dydd Llun	<i>mae'n braf</i>	<i>braf</i>
Dydd Mawrth	<i>wyntog</i>	<i>mae'n bwrw glaw</i>
Dydd Mercher	<i>gymlog</i>	<i>mae'n oer</i>
Dydd Iau	<i>mae'n heulog</i>	<i>mae'n heulog</i>
Dydd Gwener	<i>stormus</i>	<i>mae'n bwrw glaw</i>
Dydd Sadwrn	<i>mae'n gymylog</i>	<i>mae'n gymylog</i>

heulog

braf

gymylog

bwrw glaw

bwrw eira

stormus

rhewi

boeth

oer

wyntog


wlyb

Gareth has managed to copy most of the necessary words and phrases correctly. Sometimes he writes the sentence in full but on other occasions he is content to copy words only. His letters are clearly shaped and correctly orientated but the spacing between words is sometimes insufficient.


## Ysgrifennu

### Gweithgaredd 1 | Cadw dyddiadur: Y tywydd

Mae'n arfer gan athrawes Gareth gadw siart dywydd yn y dosbarth. Yn aml, bydd yn siarad am y tywydd yn y Gymraeg er mwyn ymarfer Cymraeg achlysurol. Fel dilyniant i hyn, gofynnwyd i'r dosbarth gadw siart dywydd ysgrifenedig bersonol am wythnos. Roedd geirfa allweddol ar eu siart i'w hatgoffa, ac roedd y patrwm 'Mae'n...' ar wal y dosbarth.



Enw
Gareth



### Dyddiadur y Tywydd

	Bore	Pnawn
	Mae'n .....	Mae'n .....
Dydd Sul	bwrw eira	rhew
Dydd Llun	Mae'n braf	braf
Dydd Mawrth	wyntog	Mae'n bwrw glaw
Dydd Mercher	gymlog	Mae'n oer
Dydd Iau	mae'n heulog	Mae'n heulog
Dydd Gwener	stormus	Mae'n bwrw glaw
Dydd Sadwrn	Mae'n gymylog	Mae'n gymylog

heulog	braf	gymylog	bwrw glaw
bwrw eira	stormus	rhewi	boeth
oer	wyntog	wlyb	

Mae Gareth wedi llwyddo i gopïo'n gywir fwyafrif y geiriau a'r ymadroddion angenrheidiol. Weithiau, mae'n ysgrifennu'r frawddeg yn gyflawn ond bryd arall mae'n bodloni ar gopïo geiriau yn unig. Mae ei lythrennau wedi eu ffurfio'n glir ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond weithiau, does dim bwllch digonol rhwng y geiriau.

## Activity 2 | Filling in an identity card: *Dyma fi*

The class had been revising how to record their personal details in order to enable them to fill in an identity card for the youth club. In this activity, the teacher handed out differentiated worksheets to the pupils and explained to Gareth's group that they were required to write full sentences about their hobbies in the final section. All pupils completed the task independently.

Enw Gareth

Byw Y Heib

Oed deg

Pen-blwydd 6 mawrth

Ysgrifenna am dy hobiau - Beth? Ble? Pryd? Efo paw?

Sgwâr

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_


\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Gareth has managed to read the items and has filled in the gaps but he needed help with the meaning of the word 'pen-blwydd'. He was able to fill in the gap once he understood the meaning. He has spelt the words correctly and shaped his letters consistently. There is an opportunity to write more extensively at the end of the card but Gareth is content to answer at word level.

## Gweithgaredd 2 | Llenwi cerdyn adnabod: Dyma fi

Roedd y dosbarth wedi bod yn adolygu sut i gofnodi eu manylion personol er mwyn eu galluogi i lenwi cerdyn adnabod ar gyfer y clwb ieuenctid. Dosbarthodd yr athrawes y taflenni gwahaniaethol i'r disgyblion gan esbonio i grŵp Gareth bod angen ysgrifennu brawddegau llawn am eu hobiau yn y rhan olaf. Gwnaeth pawb y dasg yn annibynnol.



Enw Gareth

Byw Y Heb

Oed deg

Pen-blwydd 6 mawrth

Ysgrifenna am dy hobiau - Beth? Ble? Pryd? Efo pwy?

Soccer

Mae Gareth wedi llwyddo i ddarllen yr eitemau a llenwi'r bylchau ond bu raid iddo gael help gydag ystyr 'pen-blwydd'. Wedi iddo ddod i ddeall yr ystyr mae wedi llwyddo i lenwi'r bwlch. Mae wedi sillafu'r geiriau'n gywir ac mae ei lythrennau wedi eu ffurfio'n gyson. Mae cyfle ar ddiwedd y cerdyn i ysgrifennu'n fwy ymestynnol ond mae Gareth yn bodloni ag ateb ar lefel gair.

### Activity 3 | Substitution exercise: *Llythyr*

For this activity, Gareth was required to write a letter to a friend using a given pattern. Words had been underlined in the original letter and Gareth's task was to replace those words with his own words and phrases.

The image shows two boxes illustrating a substitution exercise. The top box contains the original letter template with underlined words. The bottom box shows the student's handwritten response, where the underlined words have been replaced with their own words and phrases.

**Original Letter Template:**

12 Y Stryd Fawr  
Brynboch  
Tachwedd 23

Annwyl Liam,

Helo. Steve Jones ydw i. Rydw i'n byw yn Rhuthun ac rydw i'n mynd i Ysgol Gynradd Rhuthun. Rydw i'n un deg un oed.

Rydw i'n mwynhau beicio efo ffrindiau bob dydd Sul. Rydw i'n hoffi mynd allan efo Mam a Dad ar ddydd Sadwrn hefyd.

Hwyl  
Huw

**Student's Handwritten Response:**

23 Ffordd Rhuthun  
Wrexham  
Solewatts

Annwyl Adam

Helo. Gareth ydw i. Rydw i'n byw yn Wrexham ac rydw i'n mynd i Ysgol Gynradd Wrexham. Rydw i'n deg oed.

Rydw i'n mwynhau chwarae efo ffrindiau bob dydd Sadwrn. Rydw i'n hoffi mynd ysgol efo ffrindiau ar dydd Lun hefyd.

Hwyl  
Gareth

In a task which offered much support, Gareth has responded appropriately and produced a sensible letter.

### Gweithgaredd 3 | Ymarfer disodli: Llythyr

Yn y gweithgaredd hwn, roedd rhaid i Gareth ysgrifennu llythyr at ffrind gan ddilyn patrwm a roddwyd iddo. Tanlinellwyd geiriau yn y llythyr gwreiddiol a thasg Gareth oedd cyfnewid y geiriau hynny â'i eiriau a'i ymadroddion ei hun.

12 Y Stryd Fawr  
Brynboch  
Tachwedd 23

Anrwyf Liam,

Helo Steve Jones ydw i. Rydw i'n byw yn Rhuthun ac rydw i'n mynd i Ysgol Gynrodd Rhuthun. Rydw i'n un deg un oed.

Rydw i'n mwynhau beicio efo ffrindiau bob dydd Sul. Rydw i'n hoffi mynd allan efo Mam a Dad ar ddydd Sodern hefyd.

Hwyl  
Huw

23 Ffeold Rhuthun  
Wrexham  
Snlawrth

Anrwyf Adam

Helo Gareth ydw i. Rydw i'n byw yn Wrexham ac rydw i'n mynd i Ysgol Gynrodd Wrexham. Rydw i'n deg oed.

Rydw i'n mwynhau chwarae efo ffrindiau bob dydd Sodern. Rydw i'n hoffi mynd i ysgol efo ffrindiau ar ddydd Lun hefyd.

Hwyl  
Gareth

Mewn tasg oedd yn cynnig llawer o gefnogaeth, mae Gareth wedi llwyddo i ymateb yn briodol gan gynhyrchu llythyr synhwyrol.

**Activity 4 | Writing sentences to describe pictures:  
Beth sy'n bod?**

The pupils had been discussing different illnesses and in order to reinforce this work the teacher handed out differentiated worksheets to the class. Gareth's group was asked to produce sentences to match the pictures.



Gareth could not remember all of the illnesses but when his teacher reminded him that the vocabulary was to be seen on the classroom wall, he referred to it regularly. He has therefore been able to copy each of the illnesses correctly, except for the occasional spelling mistake, e.g. 'dolyr' and 'pigin'. He has omitted the preposition in examples where he needed to conjugate it, even though help was available on the whiteboard.



## Gweithgaredd 4 | Ysgrifennu brawddegau i ddisgrifio lluniau: Beth sy'n bod?

tiwna	teisen	rhollau	creision	dawnsio
hufen iâ	cacen	wyau	slodion	
sinema	erici	gemau	samon	



Mae cerdd Kirsty'n ddibynnol iawn ar y gerdd wreiddiol o ran geirfa ac mae hi wedi cadw'n agos iawn at y patrwm. Serch hynny, mae hi wedi dewis geiriau a phatrymau addas ac wedi sillafu'r rhan fwyaf o'r geiriau'n gywir. Mae hi wedi addurno ei cherdd yn briodol hefyd.

## Summary and overall judgement

### Oracy

Consideration was given to Levels 3 and 4 when evaluating Kirsty's Oracy work.

When reporting back during the first activity and when presenting the group's ideas about the party, Kirsty demonstrates that she *understands a series of short items* spoken by familiar voices, which is a feature of Level 3. On rare occasions, she makes some voluntary statements, which is another feature of Level 3, e.g. in Activity 2, she says that she enjoys dancing. In situations where she is required to contribute, she consistently *asks for, understands and communicates simple... information* and during role-play with Shannon, her gestures as well as her contributions convey understanding and enjoyment. When she speaks, her *pronunciation and intonation is understandable*. These are all features of Level 3. In group situations where she is not encouraged or compelled to contribute, Kirsty tends to be content with listening to others, remaining silent for extended periods.

In view of Kirsty's contribution in this series of activities, Level 3 best fits her performance. To progress and demonstrate features of Level 4, she will need to make a greater contribution to discussions, express opinions more frequently and give a variety of reasons for those opinions.

### Reading

Consideration was given to Levels 2, 3 and 4 when evaluating Kirsty's performance in Reading.

This collection contains five very different reading activities undertaken by Kirsty. They include reading sentences, paragraphs and a whole book as well as reading aloud. When drawing pictures to correspond to text, Kirsty demonstrates one of the features of Level 2 by recognising *simple... words and phrases*, but she is also able to *read familiar passages clearly and with some expression* which is a feature of Level 4, e.g. in *Ffilmio and Anifeiliaid Anwes*. She has demonstrated features of Level 3 by responding *simply to texts that include an increasing range of words, phrases and short passages in familiar contexts*, e.g. in the *Anifeiliaid Anwes* activity, where she is required to tick boxes. She perseveres with her reading and *chooses some texts voluntarily*, which is another feature of Level 3.



## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 3 a 4 wrth bwysu a mesur gwaith Llafaredd Kirsty.

Wrth adrodd yn ôl yn y gweithgaredd cyntaf ac wrth gyflwyno syniadau'r grŵp am y parti, mae Kirsty'n *dangos dealltwriaeth o gyfres o eitemau* byr a lefarwyd gan leisiau cyfarwydd sy'n un o nodweddion Lefel 3. Ar adegau prin, mae'n gwneud ambell sylw gwirfoddol, sy'n un arall o nodweddion Lefel 3, e.e. mae'n dweud ei bod yn hoffi dawnsio yng Ngweithgaredd 2. Mewn sefyllfa lle mae rhaid iddi gyfrannu, mae'n *ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml* yn gyson ac wrth chwarae rôl gyda Shannon mae ei hosgo, yn ogystal â'i chyfraniadau yn cyfleu dealltwriaeth a mwynhad. Wrth siarad, mae hi'n *ynganu ac yn goslefu yn ddealladwy*. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion Lefel 3. Mewn sefyllfa grŵp a heb anogaeth neu orfodaeth i gyfrannu, mae Kirsty'n tueddu i fodloni ar wrando heb ddweud unrhyw beth am gyfnodau estynedig.

O ystyried cyfraniad Kirsty yn y gyfres hon o weithgareddau, y lefel sy'n cyd-fynd orau â'i pherfformiad yw Lefel 3. Er mwyn iddi symud ymlaen i arddangos rhai o nodweddion Lefel 4, bydd angen iddi gyfrannu mwy i'r drafodaeth, mynegi barn yn amlach a chynnig rhesymau amrywiol dros y farn honno.

### Darllen

Cyfeiriwyd at Lefelau 2, 3 a 4 wrth ystyried perfformiad Kirsty mewn Darllen.

Yn y casgliad hwn o ddarnau gan Kirsty, ceir pum gweithgaredd darllen amrywiol iawn, sy'n rhychwantu brawddegau, paragraffau a llyfr cyfan yn ogystal â darllen ar goedd. Wrth dynnu llun i gyfateb â thestun, mae Kirsty'n arddangos un o nodweddion Lefel 2 drwy *adnabod geiriau ac ymadroddion syml* ond mae hi hefyd yn gallu *darllen darnau cyfarwydd yn glir a chyda pheth mynegiant* sy'n un o nodweddion Lefel 4, e.e. yn *Ffilmio ac Anifeiliaid Anwes*. Mae hi wedi arddangos nodweddion Lefel 3 drwy *ymateb yn syml i destunau sy'n cynnwys ystod gynyddol o eiriau, ymadroddion a darnau byr mewn cyd-destunau cyfarwydd*, e.e. yn yr ymarfer ticio bocsys yn y gweithgaredd *Anifeiliaid Anwes*. Mae hi'n dyfalbarhau i ddarllen ac yn *dewis ambell destun o'i gwirfodd* sy'n un arall o nodweddion Lefel 3.

Having considered each piece of work, it was decided that Level 3 best fits Kirsty's performance in Reading.

### **Writing**

Consideration was given to Levels 3 and 4 when evaluating Kirsty's performance in Writing.

Kirsty was given the opportunity to write in a variety of forms and contexts and she successfully demonstrated a feature of Level 3 by showing an understanding of the requirements of the different forms, e.g. she sets out the postcard and e-mail correctly, demonstrating an awareness of the reader's needs. She *communicates simple factual and personal information... fairly accurately*, demonstrating features of performance at Level 3. However, she also shows *some grasp of order and progression, when writing for different purposes*, which is a feature of attainment at Level 4. She is not entirely sure when to use full-stops and capital letters. Her *handwriting is legible and work is appropriately presented* and demonstrates some features of Level 3. Her spelling is good and she succeeds in *varying... patterns*, which is a feature of Level 4, but relies quite heavily on aids and thorough preparation to be able to achieve this.

Despite some signs of attainment at a higher level, Level 3 best fits Kirsty's performance in Writing.

Ar y cyfan, wedi ystyried yr holl ddarnau, penderfynwyd mai Lefel 3 sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad Kirsty mewn Darllen.

### **Ysgrifennu**

Wrth ystyried perfformiad Kirsty mewn Ysgrifennu, cyfeiriwyd at Lefelau 3 a 4.

Cafodd Kirsty gyfle i ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau a chyd-destunau ac mae wedi arddangos un o nodweddion Lefel 3 drwy ddangos dealltwriaeth o ofynion y gwahanol ffurfiau, e.e. mae hi'n gosod y cerdyn post a'r e-bost yn gywir gan ddangos ymwybyddiaeth o ofynion y darlennydd. Mae hi'n *cyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol syml... yn weddol gywir* gan arddangos nodweddion perfformiad Lefel 3, ond mae hi hefyd yn dangos *peth gafael ar drefn a dilyniant, wrth ysgrifennu i wahanol bwrpasau* sy'n arwydd o gyflawniad ar Lefel 4. Dydy hi ddim eto'n hollol sicr yn ei defnydd o'r atalnod llawn a'r briflythyren. Mae ei *llawysgrifen yn ddarllenadwy a chaiff y gwaith ei gyflwyno'n briodol* gan arddangos rhai o nodweddion Lefel 3. Mae'r sillafu'n dda, ac mae'n *amrywio patrymau* sy'n un o nodweddion Lefel 4, er ei bod yn eithaf dibynnol ar gynorthwyon ac ar y paratoi trylwyr i wneud hyn.

Mae ambell arwydd o gyflawniad ar lefel uwch, ond, ar y cyfan disgrifiad Lefel 3 sy'n cyd-fynd orau â gwaith Ysgrifennu Kirsty.

## Freya



Freya is an 11-year-old learner in Key Stage 2.

Freya is a Key Stage 2 pupil in a Category B school, where she has been learning Welsh for six years. Her family does not speak Welsh. The pupils are usually taught Welsh for about two hours a week, but for six weeks before filming they were immersed in the language and 90 per cent of the timetable was given over to Welsh-medium work. The main emphasis was on oral work and Freya's teacher noted that her performance in oracy improved one level during this period. Freya will now transfer to a Welsh medium school at the start of Year 7.

Her teacher knows much more about Freya's performance than can be included here. However, this profile has been selected to illustrate characteristic features of Freya's work across a range of activities. Each example is accompanied by a brief commentary to provide a context and indicate particular qualities in the work.

### Oracy

#### Activity 1 | Clip 11 – Presentation: *Fy nheulu*

Each year, Year 6 pupils in this school give a presentation in front of the class in either English or Welsh. This clip shows part of Freya's Welsh presentation, where she demonstrates transferable skills involved in making a presentation.

Freya begins sensibly by introducing herself and other members of her family and demonstrates an awareness of order and progression. She has selected the most interesting facts about her family for inclusion in her presentation, e.g. her great-great-grandfather was a first class passenger on the Titanic and two of her brothers were in the Asian tsunami (December 2004). She ends the presentation effectively and asks members of the audience if they have any questions. When answering a question about her cat, she provides a reason.

## Freya



Mae Freya yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae Freya yn ddisgybl Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgol Categori B lle mae hi wedi bod yn dysgu Cymraeg am chwe blynedd. Mae hi'n dod o deulu di-Gymraeg. Fel arfer bydd y disgyblion yn cael tua dwy awr yr wythnos o Gymraeg ond am chwe wythnos cyn y ffilmio roedden nhw wedi bod mewn cyfnod trochi a oedd yn golygu eu bod nhw'n treulio 90 y cant o'r amserlen ar waith cyfrwng Cymraeg. Roedd y prif bwyslais ar waith llafar ac mae athrawes Freya yn tystio ei bod wedi codi un lefel ar lafar yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Freya nawr yn trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg ar ddechrau Blwyddyn 7.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Freya nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Freya ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

### Llafaredd

#### Gweithgaredd 1 | Clip 11 – Cyflwyniad: Fy nheulu

Bob blwyddyn, bydd disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol hon yn gwneud cyflwyniad i weddill y dosbarth naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dyma ran o gyflwyniad Cymraeg Freya, lle mae hi'n arddangos sgiliau trosglwyddadwy sy'n perthyn i wneud cyflwyniad.

Mae Freya'n dechrau'n synhwyrol drwy gyflwyno'i hunan ac yna aelodau eraill ei theulu gan ddangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant. Mae wedi dethol y ffeithiau mwyaf diddorol amdany'n nhw i'w cynnwys yma, e.e. roedd ei hen hen dad-cu yn deithiwr dosbarth cyntaf ar y Titanic a bu dau o'i brodyr yn y tsunami yn Asia (Rhagfyr 2004). Mae'n cloi'r cyflwyniad yn dwt ac yn gwahodd cwestiynau gan ei chynulleidfa. Wrth ymateb i'r cwestiwn am ei chath, mae'n rhoi rheswm.

In this clip, Freya speaks confidently, fluently and intelligibly, using a variety of phrases, sentence patterns and verb forms, usually varying the tense and person of the verb accurately, e.g. 'Dyma fi', 'rwy...', 'mae gen i...', 'fy hoff...', 'fy nghas...', 'cafodd mam ei geni...', 'mae ganddi...', 'mae'n dysgu yn Lerpwl ond mae'n dod nôl...', 'Roedd fy hen hen dad-cu...', '...pan wnaeth y llong fwrw'r îâ', 'Cafodd ei achub yn cwch saith.', 'Roedd Felix hefyd yn y tsunami.'. She talks with a good measure of accuracy. When making comments which are in addition to the facts on the whiteboard and when answering questions, her language is more colloquial e.g. 'Fi'n credu fi'n mynd i Monterey yn Rhagfyr ond fi ddim yn gwybod.', '...ond ni ddim yn rhoi fe i fe achos mae'n mynd yn dew.', '...ond mae Dad ddim yn dod o Ffrainc.'. She does not form the negative correctly nor does she conjugate prepositions correctly every time.

### Activity 2 | Clip 12 – Discuss and agree: *Gwyliau*

As part of a series of activities based on Leisure Time and Holidays, this task was set to give pupils an opportunity to practise working independently of the teacher and to reach a conclusion as a group.

The pupils were required to decide on a holiday destination for four travellers after they had read four short paragraphs containing information about their interests and needs. The activity was based on the reading passages in Activity 11, Unit 4 of *Taith laith 3* ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)).

This clip shows the discussion about two of the four sections, together with the summary at the end. Freya leads the group confidently and responds to other members of the group by asking questions and offering relevant comments, e.g. she doubts whether a trip to New Zealand would be suitable for a student. She asks other members of the group to give reasons for their choices and also checks their answers to make sure that everyone agrees. She speaks fluently and uses a variety of phrases and sentence patterns with a good measure of accuracy, but also makes occasional mistakes, e.g. she confuses 'dau' and 'dwy'.

Yn y detholiad hwn, mae'n siarad yn hyderus, yn rhwydd ac yn ddealladwy, gan ddefnyddio amrywiaeth o ymadroddion, patrymau brawddegol a ffurfiau berfol gan amrywio'r amser a'r person yn gywir fel arfer, e.e. 'Dyma fi', 'rwy...', 'mae gen i...', 'fy hoff...', 'fy nghas...', 'cafodd mam ei geni...', 'mae ganddi...', 'mae'n dysgu yn Lerpwl ond mae'n dod nôl...', 'Roedd fy hen hen dad-cu...', '...pan wnaeth y llong fwrw'r îâ', 'Cafodd ei achub yn cwch saith.', 'Roedd Felix hefyd yn y tsunami.'. Mae'n siarad gyda mesur da o gywirdeb ac wrth gynnig sylwadau ychwanegol i'r ffeithiau sy ar y bwrdd gwyn ac wrth ateb cwestiynau, mae ei hiaith yn fwy tafodieithol, e.e. 'Fi'n credu fi'n mynd i Monterey yn Rhagfyr ond fi ddim yn gwybod.', '...ond ni ddim yn rhoi fe i fe achos mae'n mynd yn dew.', '...ond mae Dad ddim yn dod o Ffrainc.'. Dydy hi ddim yn ffurfio'r negyddol nac yn rhedeg arddodiaid yn gywir bob tro.

## **Gweithgaredd 2 | Clip 12 – Trafod a dod i gasgliad: Gwyliau**

Yn ystod cyfres o weithgareddau a oedd yn ymwneud ag Amser Hamdden a Gwyliau gosodwyd y dasg hon er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ymarfer gweithio'n annibynnol ar yr athrawes a dod i gasgliad fel grŵp.

Y dasg i'r disgyblion oedd darllen pedwar paragraff byr a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddiddordebau ac anghenion pedwar teithiwr penodol ac yna penderfynu ble y dylai'r pedwar fynd ar eu gwyliau. Seiliwyd y gweithgaredd ar ddarnau darllen Gweithgaredd 11, Uned 4 o *Taith Iaith 3* ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)).

Mae'r detholiad hwn yn dangos y drafodaeth ar ddwy o'r pedair adran a'r crynhoi ar y diwedd. Mae Freya'n arwain y grŵp yn hyderus ac yn ymateb i aelodau eraill y grŵp drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol, e.e. mae hi'n amau a fyddai mynd i Seland Newydd yn addas i fyfyrwr. Mae hi'n gofyn i aelodau eraill y grŵp i roi rhesymau dros eu dewisiadau ac mae hi hefyd yn gwirio'u hatebion i sicrhau fod pawb yn cytuno. Mae'n siarad yn rhwydd ac yn defnyddio amrywiaeth o ymadroddion a phatrymau brawddegol, gyda mesur da o gywirdeb er bod ambell wall yma, e.e. cymysgu rhwng 'dau' a 'dwy'.

### Activity 3 | Clip 13 – Group work: *Wyt ti wedi bod i...?*

Continuing with their work on Holidays and working as a group independently of the teacher, the pupils were asked to discuss some of the places they had visited.

Freya led the group and was given a worksheet containing a list of different places, namely Worksheet 16, Unit 4 of *Taith Iaith 3* ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)).

In this clip, Freya asks about the various places and includes additional questions, e.g. 'Wyt ti ddou moyn mynd mewn awyren?', 'Oedd y bwyd yn neis?', 'James, beth yw dy hoff drip ysgol di?', 'Wyt ti moyn mynd... Pam?'. She also ensures that everyone takes part in the discussion and offers an explanation when discussing the balloon. She speaks fluently and uses a variety of phrases and sentence patterns which are fairly correct.

### Activity 4 | Clip 14 – Role play: *Yn y jyngl*

To conclude a series of activities based on the theme of Holidays, the pupils worked in groups in order to write a script on a subject of their choice. This piece, 'Yn y Jyngl', is a culmination of three weeks' work. The pupils play the role of a group of famous Welsh people who meet in the jungle and are given tasks to complete. Their first task, shown in this clip, is to contribute an item to make a meal.

Here we see a polished and confident performance by Freya. She speaks fluently with clear pronunciation and appropriate intonation. She uses a variety of phrases, sentence patterns and verb forms correctly.



### **Gweithgaredd 3** | **Clip 13 – Gwaith grŵp: Wyt ti wedi bod i...?**

Wrth barhau gyda'r gwaith ar Wyliau a gweithio fel grŵp yn annibynnol ar yr athrawes, gofynnodd yr athrawes i'r disgyblion drafod rhai o'r lleoedd roedden nhw wedi ymweld â nhw.

Freya oedd yn arwain ac fe gafodd hi daflen a oedd yn cynnwys rhestr o wahanol leoedd, sef taflen Gweithgaredd 16, Uned 4 o *Taith Iaith 3* ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)).

Yn y detholiad hwn, mae Freya'n holi am y gwahanol leoedd ac yn gofyn cwestiynau atodol, e.e. 'Wyt ti ddou moyn mynd mewn awyren?', 'Oedd y bwyd yn neis?', 'James, beth yw dy hoff drip ysgol di?', 'Wyt ti moyn mynd... Pam?'. Mae hi hefyd yn sicrhau fod pawb yn cymryd rhan yn y drafodaeth ac yn cynnig eglurhad wrth drafod y balŵn. Mae'n siarad yn rhwydd ac yn defnyddio amrywiaeth o ymadroddion a phatrymau brawddegol, sy'n weddol gywir.

### **Gweithgaredd 4** | **Clip 14 – Chwarae rôl: Yn y jyngl**

I gloi cyfres o weithgareddau ar Wyliau, bu'r disgyblion yn gweithio mewn grŵp i ysgrifennu sgrïpt ar bwnc o'u dewis. Penllanw tair wythnos o waith yw'r darn hwn, 'Yn y jyngl'. Mae'r disgyblion yn chwarae rôl criw o enwogion o Gymru sy'n cwrdd yn y jyngl ac yn cael tasgau i'w gwneud. Y dasg gyntaf yw cyfrannu eitem i wneud pryd o fwyd – dyna'r rhan a welir yn y clip hwn.

Yma, rydyn ni'n gweld perfformiad graenus a hyderus iawn gan Freya. Mae'n siarad yn rhwydd ac yn ynganu'n glir gyda goslef briodol. Mae'n defnyddio amrywiaeth o ymadroddion, patrymau brawddegol a ffurfiau berfol yn gywir.

## Activity 5 | Listening and responding: *Teithio*

The teacher knew that the pupils were able to listen and respond to one another well but she wanted to see if they could understand unfamiliar voices and listen carefully to details in order to record information. This type of activity was new to the pupils.

The class listened to two extracts from the *Taith Iait* 3 CD, namely Activities 15 and 20 from Unit 4 ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)). The pupils were given an opportunity to listen to the text twice and the teacher repeatedly paused the disc to give them an opportunity to respond. The two tasks were quite different and although Activity 15 appeared to be easier, the pupils were required to listen carefully in order to select the correct answer in a multiple choice exercise. Activity 20 required the pupils to record relevant information and although it involved generating language, the answers were more direct and obvious.

*Gweithgaredd 15*

Rhaid gwrandio ar y cryno ddiog ac yna rhaid ticio'r atebien cywir.

1. I ble oeth Barry gyda'r ysgol?

- a. Hong Kong
- b. Awstralia
- c. Awstria
- d. Seland Newydd

2. Faint o amser oedd hi'n gymryd i hedfan i Hong Kong?

- a. tua 8 awr
- b. tua 10 awr
- c. tua 12 awr
- d. tua 20 awr

*Esaf - gwelwyd yn eiddoedd (12) yn awstralia (12)*

3. Roedd Hong Kong yn

- a. awr
- b. fawel
- c. gelyb
- d. prysur

4. Beth wnaeth Barry yn Sydney?

- a. canu yn y tŷ opera
- b. yrrfa yn y môr
- c. dringo post
- d. bwyta bwyd Tsieinaidd

*gwelwyd yn y tŷ opera*

5. Beth wnaeth Barry yn Seland Newydd?

- a. gersego dillad arbennig
- b. raffia ar afon
- c. ffilmia golygfeydd hardd
- d. bwyta bwyd Tsieinaidd

## Gweithgaredd 5 | Gwrando ac ymateb: Teithio

Roedd yr athrawes yn gwybod bod y disgyblion yn gwrando ar ei gilydd ac yn ymateb i'w gilydd yn dda, ond roedd hi eisiau gweld a oedden nhw'n gallu deall lleisiau anghyfarwydd a gwrando'n ofalus ar fanylion er mwyn cofnodi'r wybodaeth. Roedd y math hwn o weithgaredd yn newydd i'r disgyblion.

Gwrandawodd y dosbarth ar ddau ddarn oddi ar CD *Taith Iaith 3*, sef Gweithgareddau 15 ac 20 o Uned 4 ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)). Cafodd y disgyblion gyfle i wrando ar y testun ddwywaith, gyda'r athrawes yn atal y ddisg yn gyson er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb. Roedd y ddwy dasg yn wahanol i'w gilydd ac er bod Gweithgaredd 15 yn ymddangos yn haws, roedd gofyn iddyn nhw wrando'n ofalus er mwyn dewis yr ateb cywir mewn ymarfer amldeuwis. Cofnodi gwybodaeth berthnasol oedd Gweithgaredd 20 ac er bod rhaid cynhyrchu iaith, roedd yr atebion yn fwy uniongyrchol ac amlwg.

**Gweithgaredd 15**

Rhaid gwrando ar y cryno ddisg ac yna rhaid ticio'r atebion cywir.

1. I ble oeth Barry gyda'r ysgol?

- a. Hong Kong
- b. Awstralia
- c. Awstria
- d. Seland Newydd

2. Faint o amser oedd hi'n gymryd i hedfan i Hong Kong?

- a. tua 8 awr
- b. tua 10 awr
- c. tua 12 awr
- d. tua 20 awr

*Esaf - gwelodd ym 12 awr (12:00) yn awstralia (12:00)*

3. Roedd Hong Kong yn

- a. aer
- b. fawc
- c. gwylb
- d. prysur

4. Beth wnaeth Barry yn Sydney?

- a. canu yn y tŷ opera
- b. syrffio yn y môr
- c. dringo post
- d. bwyta bwyd Taisneodd

*gwelodd ym 12 awr (12:00) yn awstralia (12:00)*

5. Beth wnaeth Barry yn Seland Newydd?

- a. gwrando dilled arbennig
- b. reffio ar afon
- c. ffilmio golygfeydd hardd
- d. bwyta bwyd Taisneodd

## Gweithgaredd 20

Rhaid gwneud 20 y cyfwrdding i'w hysbysu i'w gartref.

Ew	Enw	Ogylt/Enw?	Amf	Trywydd	Gwybodaeth Ychwanegol
Sila	Gwedd Sion y Spain	Aeth Sion yml. i theulu	Arhosodd mewn gwasty tair sŵen.	Roddid hi'n deith yno	Teithiodd hi mewn ceir.
Alex	Arhosodd hi mewn ceir. Fach y pwyllwys.	Aeth Alex yml. i frind y gaeau Sean	Arhosodd hi'n mewn cerbyd.	Roddid y gwastid ddiun mewn cerbyd a hysbysu cymysg.	Teithiodd Alex mewn cer.
Amara	Aeth Amara i'r ffilm.	Aeth Amara yml. i wargu a deddi.	Arhosodd Amara mewn gwasty bach i'r ffrwd.	Roddid y gwastid yn cerbyd yn ysg.	Teithiodd Amara mewn bus cymerydd y deith deg awr.
Edu	Aeth Kris i Ffrainc.	Aeth Kris yml. i ddiun.	Arhosodd hi'n mewn ffwrdd tach yn y wlad.	Roddid y gwastid yn brat.	Sgwadodd e ffrangeg.
Ben	Aeth Ben i'r dewiwr dymodau mewn ddiun mewn ffwrdd.	Aeth Ben yml. i ffrindau.		Roddid y gwastid yn brat mewn	Teithiodd Ben mewn bus Cafodd Ben ddiun gwastid.

Freya has managed to answer questions 1, 3 and 5 of Activity 15 correctly. She has ticked three boxes instead of one in question 4 and has confused 'deuddeg' and 'dau ddeg' in number 2.

She has answered all of the questions in Activity 20 correctly, using full sentences. In these two tasks, Freya has demonstrated an understanding of what she heard and has responded successfully.

## Gweithgaredd 20

Khali gwneud a y cyfarwng cychod Ben's gŵil

Ew	Blé?	Gyda Eib?	Am?	Trydydd?	Gwybodaeth Ychwanegol
Sila	Gwedd Sian y Spain	Aeth Sian gyda'i theulu	Arhosodd mewn gwastyfau tair sŵen.	Roddid hi'n deith yno	Teithiodd hi mewn cerbyd
Alex	Arhosodd hi mewn ceffwr Fach yng Nghymru	Aeth Alex gyda'i ffrind gyda'i Sean	Arhosodd hi mewn cerbydau	Roddid y gwastol ddiwrnod yn y cerbyd a'i hysbysu	Teithiodd Alex mewn cerbyd
Amara	Aeth Amara i'r Ffrainc	Aeth Amara gyda'i wraig a'i deulu.	Arhosodd Amara mewn gwastyfau bach yn Ffrainc	Roddid y gwastol yn cerbyd yn y cerbyd	Teithiodd Amara mewn bus cymunedol y deith deg awr.
Kris	Aeth Kris i Ffrainc	Aeth Kris gyda'i deul	Arhosodd hi mewn ffwrdd fach yn y wlad	Roddid y gwastol yn cerbyd	Sarhadodd a ffringeg
Ben	Aeth Ben ar ddiwrnod diwrnodau i'r cerbydau a'i hysbysu.	Aeth Ben gyda'i ffrindau.		Roddid y gwastol yn cerbyd	Teithiodd Ben mewn bus Cefnol Ben diwrnod gŵil.

Gyda Gweithgaredd 15, mae Freya wedi llwyddo i gael atebion 1, 3 a 5 yn hollol gywir. Mae hi wedi ticio tri bocs yn hytrach nag un yng nghwestiwn 4 ac mae hi wedi cymysgu rhwng 'deuddeg' a 'dau ddeg' yn rhif 2.

Mae hi wedi ateb pob un o gwestiynau Gweithgaredd 20 yn gywir gan ddefnyddio brawddegau llawn. Yn y ddwy dasg yma, mae Freya wedi dangos dealltwriaeth o'r hyn a glywodd ac wedi ymateb iddo'n llwyddiannus.

## Reading

### Activity 1 | Clip 15 – Read and discuss: *Nofel – Y Gwyliau Gorau Erioed!*

The school takes part in the annual book quiz. In this activity, the group read a chapter of the book with the teacher and then answered questions about the whole book in preparation for the competition. Although this was a group activity the clip has been edited to focus on Freya's contribution.

In the clip, we see Freya reading three short extracts aloud clearly and with expression. By the time she reaches the third extract, however, she does not read with the same fluency and has difficulty with occasional words, e.g. 'eglurhad' and 'cyrraedd'.

Freya refers to key events in the book when answering the teacher and demonstrates that she has understood the character of Tomos by commenting that he feels excited and happy after winning the competition. She goes on to offer reasons to support her opinion. At the end of the activity, she gives her opinion about the characters and the entire book, including the illustrations. She also comments on other books by the author. In doing so, she offers sensible reasons to explain her ideas.

### Activity 2 | Clip 16 – Discuss a poem: *Sbwriel* (Zac Davies)

The teacher had introduced a series of lessons on The Environment and to close this series she and the pupils read the poem *Sbwriel*. She then sat with Freya's group and asked them questions. The film has been edited, omitting the contributions of the other members of the group, in order to focus on Freya's contribution.

The teacher asks the pupils about the poem's form and content and Freya shows that she fully understands the poem. She notes that the poem's message is that throwing litter on the floor is not a nice thing to do, which demonstrates an understanding of the main ideas. She explains why the poet has repeated the word 'peidiwch' in her favourite verse. She offers an opinion about the poem, stating that she likes the message but, on a negative note, that it is also a little depressing.

## Darllen

### Gweithgaredd 1 | Clip 15 – Darllen ar goedd a thrafod: Nofel – *Y Gwyliau Gorau Erioed!*

Bydd yr ysgol yn cymryd rhan yn y cwis llyfrau blynyddol. Yn y gweithgaredd hwn, mae'r grŵp yn darllen pennod o'r llyfr gyda'r athrawes ac yna maen nhw'n ateb cwestiynau ar y llyfr cyfan fel paratoad ar gyfer y gystadleuaeth. Er bod hwn yn weithgaredd grŵp, mae'r clip wedi ei olygu er mwyn canolbwyntio ar gyfraniad Freya.

Yn y clip, rydyn ni'n gweld Freya'n darllen tri darn byr ar goedd yn glir a chyda mynegiant. Serch hynny, dydy hi ddim yn darllen mor rhugl erbyn y trydydd darn ac mae'n cloffi rhyw ychydig dros ambell air, e.e. 'eglhurhad', 'cyrraedd'.

Wrth ateb ei hathrawes, mae Freya'n cyfeirio at ddigwyddiadau allweddol yn y llyfr ac mae'n dangos ei bod wedi deall cymeriad Tomos wrth iddi hi ddweud ei fod yn teimlo'n gyffrous ac yn hapus ar ôl iddo ennill y gystadleuaeth. Mae'n mynd ymlaen i gynnig rhesymau i gefnogi ei barn. Ar ddiwedd y gweithgaredd, mae hi'n mynegi barn am y cymeriadau ac am y llyfr cyfan, gan gynnwys y lluniau. Mae hi'n cynnig sylwadau am lyfrau eraill gan yr awdur hefyd. Wrth wneud hyn, mae hi'n cynnig rhesymau synhwyrol i esbonio ei syniadau.

### Gweithgaredd 2 | Clip 16 – Trafod cerdd: *Sbwriel* (Zac Davies)

Bu'r athrawes yn gwneud tipyn o waith ar Yr Amgylchedd ac i gloi'r gyfres o wersi darllenodd y disgyblion a'r athrawes y gerdd *Sbwriel* gyda'i gilydd. Yna, eisteddodd yr athrawes gyda grŵp Freya i'w holi. Er mwyn canolbwyntio ar gyfraniad Freya, cafodd y ffilm ei olygu'n sylweddol gan ddileu cyfraniadau gweddill y grŵp.

Mae'r athrawes yn holi'r disgyblion am y ffurf a'r cynnwys ac mae Freya'n dangos dealltwriaeth lawn o'r gerdd. Mae hi'n nodi mai neges y gerdd yw nad yw taflu sbwriel ar y llawr yn neis sy'n dangos ei bod wedi deall y prif syniadau. Mae hi'n esbonio pam mae'r bardd wedi ailadrodd y gair 'peidiwch' yn ei hoff bennill. Mae'n mynegi barn am y gerdd gan ddweud ei bod yn hoffi'r neges ond ar yr ochr negyddol, bod y gerdd ychydig yn ddiflas.

### Activity 3 | Independent reading: Reading record

In their personal reading programmes, pupils are expected to keep a record of the books they read by using a specific template. Freya is a keen reader and has enjoyed reading books in the *Llamu Mlaen* series published by Gomer Press. Her teacher noted that Freya occasionally had to ask for a considerable amount of help with some pages in these books. However, because of her interest in the content and the support that was available, she was willing to persevere with reading them independently.

**COFNOD DARLLEN BLWYDDYN 6**

Ew'r llyfr	Ew'r awdur	Math o lyfr (e.e. stori, dyddiadur, teitlbia)	Llyfr am beth - rhowch fanylion	Beth dw i'n hoffi	Beth dw i ddim yn hoffi
Symud fy	Elen Edwards	Stori trist ar dechrau ond hapus yn y darnod	leis yn symud fy ar y dechrau darlled hi ddim yn hapus ond wedyn darlled hi'n idur	ble mae Elen Elen yn gas- du i ddim yn hoffi: Elen.	Y ddiwedd - mae leis yn ddiwedd Mae'n fy newydd yma'n gret
Trein Ddeud Mam	Aled Gwyn Job	Stori darnod	Deudaf tric ar Mam Ddu plant ddim o mabwysu Mam y parhau Mam yn ddiwedd. Mam yn newydd yn y gogel.	Du i'n hoffi ble mae Mam yn mynd i'r ysgol yn dilled Franis.	Dim byd
Myed i'r ysgol yn Uganda	Ioan Dyer	Nyfr Gwybodaeth	Ysgol yn Uganda - bawer, byw yn uganda, fo lledog, guss, gwas plant.	Mae Hauer o llyfrau yn y lyfr Du i'n hoffi ysgol llyfrau o ysgol mawr yn ysgol mawr Uganda.	Du i ddim yn hoffi gwisg ysgol Mae llyw ydy ofnody.
Dim castrol	Zoe Evans	Nyfr am c.	Stori am c. Does dim castrol ydy si ond mae c'n coel ffrind newydd	Y ddiwedd - mae Ben yn coel baro Mae c'n cysgu ysgol ffrind newydd	Du i ddim yn hoffi dechrau y lyfr. Mae e ydy trist.
Tseina	Nia Peter Roberts	Nyfr Gwybodaeth	Nyfr am China y wll four Beijing Shanghai, Mawr i'r ysgol. Buyl Tsinaid y Ffrwydlyn Newydd	Du i'n hoffi y bawd Tsinaid mawr da i'n hoffi darker- coel. Du i ddim yn coel "chpattels"	Du i ddim yn hoffi ysgol Du i ddim yn hoffi dechrau am £20 a du i ddim yn cysgu gogel mawr i'r c'n y lyfr.

It is obvious from the reading record that Freya has understood the content of the books she has read. She has responded to them by referring to significant details contained in the text. She demonstrates that she understands an increasing range of key words and phrases and reads independently. When referring to what she likes in the book *Tseina*, she gives a simple reason for her answer.



### Gweithgaredd 3 | Darllen annibynnol: Cofnod darllen

Fel rhan o'u rhaglen ddarllen bersonol, disgwylir i'r disgyblion gadw cofnod o'r llyfrau maen nhw'n eu darllen gan ddefnyddio templed. Mae Freya'n ddarllen ydd brwd ac mae wedi cael blas ar ddarllen llyfrau yn y gyfres *Llamu Mlaen* a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer. Nododd ei hathrawes ei bod yn gorfod gofyn am gymorth sylweddol gyda rhai tudalennau yn y llyfrau hyn. Ond oherwydd ei diddordeb yn eu cynnwys a'r gefnogaeth oedd ar gael, roedd yn barod i ddyfalbarhau i'w darllen yn annibynnol.

**COFNOD DARLLEN BLWYDDYN 6**

Ew'r llyfr	Ew'r awdur	Math o lyfr (e.e. stori, dyddiadur, teitbio)	Llyfr am beth - rhowch fanylion	Beth dw i'n hoffi	Beth dw i ddim yn hoffi
Symud fy	Elen Edwards	Stori trist ar destruau ond hapus yn y daudd	leis yn symud fy. Ar y destruau daedd hi ddim yn hapus ond wedyn daedd hi'n idim	Ble mae Elen. Elen yn gas- da i ddim yn hoffi. Barr.	Y daudd - mae leis yn daudd Mae'n fy newydd yma'n grêt
Trein Ddaed Mam	Aled Gwyn Job	Stori daudd	Daudd tric ar Mawr Daudd pleur ddim y indertlawel Mam y par Mawrtham daudd. Mam am masin rhwyng yn yr ysgol	Dau i'n hoffi ble mawr Mam yn mydd i'r ysgol yn dilled ffansi	Dim byd
Mydd i'r ysgol yn Uganda	Iwan Dyer	Hyfr Gwybodaeth	Ysgol yn Uganda - bawri, byw yn uganda, foiledas guss, gawau plant.	Mae Hower o Mawr yn y lyfr Dau i'n hoffi gwyddu am yr ysgol mawr yn Uganda	Dau i ddim yn hoffi gwisg ysgol. Mae llaw gdy ofnodyc.
Dim castrat	Zoe Evans	Hyfr am c.	Stori am c. Does dim castrat gysb- i. ond mae c'n cael ffirnd newydd	Y daudd - mae Elen yn cael bawr Mae c'n gysgu ysgol ffirnd newydd	Dau i ddim yn hoffi destrau y lyfr. Mae e idy trist.
Tseina	Nia Peter, Roberts	Hyfr Gwybodaeth	Hyfr am China. Y wyl fawr, Beijing, Shang, Mawr i'r ysgol, bydd Tsainaid y Pwyddyn Mawr	Dau i'n hoffi. y bawr Tsainaid mawr da i'n hoffi daudd - mawr. Dau i ddim yn cael destrau	Dau i ddim yn hoffi ysgol. Dau i ddim yn hoffi destrau am e 20 a dau ddim yn cysgu gysgu mawr i'n hoffi cysgu y ffirnd.

Mae'n amlwg o'r cofnod fod Freya wedi deall cynnwys y llyfrau a ddarllenodd yn dda iawn. Mae hi wedi ymateb iddyn nhw drwy gyfeirio at fanylion arwyddocaol yn y testun. Mae'n dangos ei bod yn deall ystod gynyddol o eiriau ac ymadroddion allweddol ac mae'n darllen yn annibynnol. Wrth gyfeirio at yr hyn y mae'n ei hoffi yn y llyfr *Tseina*, mae'n rhoi rheswm syml dros ei hateb.

## Activity 4 | Completing a profile: *O Gaerdydd i Borneo*

Whilst undertaking work on Holidays with a Difference, the pupils read *O Gaerdydd i Borneo, Taith Iaith 3, Uned 4, Activity 22* ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)). The teacher adapted the worksheet on the website in order to give pupils an opportunity to respond personally. To begin with, the pupils read the extract aloud in pairs, with one reading the question and the other answering. They then exchanged roles before completing the worksheet. Freya's teacher made particular note of her use of intonation when asking the questions. When reading the answers she had difficulty with some unfamiliar words such as 'nadroedd a mwncïod' and 'corwynt' as well as with unfamiliar place-names. The pupils were then given the opportunity to complete the worksheet independently.

**Taith i'w chofio**

**Manylion Personol:**  
 Enw: Gareth Jenkins  
 Oed: 17  
 Tyst: Glanraf, Corwynt

**Y deith:**  
 Tystia: Borneo  
 sut? Teithwedd Gareth mewn awyren  
 dyddiadau: 30 o ddiwrnod wrth ysgaf

**Costiau arian arian:**  
 Pwerau: £520  
 sut? Twy gerdded 35 o filltirwedd

**Ar y deith:**  
 bwydydd a chwrwys, rhinc, cain, nadroedd  
 a mwncïod  
 cerbydau a theulu gan wisgo sbectol yn eu ffis hi  
 y tystia glawing yn gylch y cerbyd  
 y tystia y sielens fawr wrth dringo trî mynydd  
 a hettiau o'r ffordd ar y tystia: Byddan achos fi hollti  
 cerdded a fi moen gweld cerbydau a  
 rhinc. Fi moen cerdded Gwrsang Mulu  
 a gweld golwgfydd prylferth. Fi ddim moen  
 gweld nadroedd.

Freya has managed to demonstrate an understanding of the main ideas and select relevant information from the text by answering the questions correctly. She also responds personally to the contents and explains why she would like to go on a similar journey.

## Gweithgaredd 4 | Cwblhau proffil: O Gaerdydd i Borneo

Fel rhan o'u gwaith ar Wyliau Gwahanol, darllenodd y disgyblion *O Gaerdydd i Borneo, Taith Iaith 3, Uned 4, Gweithgaredd 22*, ([www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3\\_rhan4.pdf](http://www.caa-aber.org.uk/uploads/ti3_rhan4.pdf)). Addasodd eu hathrawes y daflen oedd ar y wefan er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb yn bersonol. I ddechrau, gweithiodd y disgyblion mewn parau er mwyn darllen y darn ar goedd, gydag un aelod yn darllen y cwestiwn a'r partner yn ateb. Wedyn, cawson nhw gyfle i gyfnewid rôl cyn llenwi'r daflen. Sylwodd athrawes Freya yn arbennig ar ei defnydd o oslef wrth ofyn y cwestiynau. Wrth ddarllen yr atebion baglodd ar ambell air anghyfarwydd megis 'nadroedd a mwncïod' a 'corwynt' yn ogystal ag enwau lleoedd dieithr. Yna, cafodd y disgyblion gyfle i lenwi'r daflen yn annibynnol.

### Taith Iw Chofio

**Enw Personol:**  
Enw: Gareth Jenkins

Oed: 17

Trwy: Glandaf, Caerdydd

**Y daith:**  
Tartus: Borneo  
Sut? Taithodd Gareth mewn awyren  
Sut? Gyda 30 o bobl i'w cerbyd

**Cost ar ôl ymuno:**  
Pwy? £320  
Sut? Twy gerdded 35 a filltir oedd

**Ar y daith:**  
Sawon a crang-wans, rhinc, cain, nadroedd  
a mwncïod  
Cwmwl a theulu gan wasadu bwyta yn eu ty hi  
Yn glawing yn gutoed y cerbyd  
Yn siarlu fawr oedd cerbyd hi mynydd  
A serthion o'i ffordd ar ôl tebyr? Byddan achos fi huffi  
cerdded a fi moen gweld crang-wans a  
rhinc. Fi moen cerdded Gansung Mulu  
a gweld golygfeydd pryffwrth. Fi ddim moen  
gweld nadroedd



Mae Freya wedi llwyddo i ddangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a dewis gwybodaeth berthnasol o'r testun drwy ateb y cwestiynau'n gywir. Mae hi hefyd yn ymateb yn bersonol i'r cynnwys ac yn esbonio pam y byddai hi'n hoffi mynd ar daith debyg.

**Activity 5** | Completing a grid to show the differences between Jessie's life and Freya's life: *Neges o America*

Following their work on Holidays, pupils discussed life and lifestyle in different countries. The teacher adapted Activity 49 from *Llyfr Gweithgareddau 2* of the *Taith Iait* series and added another question for differentiation purposes and to ensure that the activity was suitable for all members of the class. Freya read the most challenging version of the text and completed the task independently as homework.

	Jessie	Fi
Byw nowr - ble?	Byw yn Michigan yn America	byw yn Borth yn Cymru
Y tywydd	Mis Gorffennaf, Mis Awst - beeth iawn Mis Ionawr, Mis Chwefror mae hi'n cer iawn a bira eira	Mis Gorffennaf a mis Awst weithiau'n beeth, weithiau'n burw glaw Mis Ionawr a Mis Chwefror burw glaw a weithiau'n burw eira
Yr ysgol	Does dim gwisg ysgol dechrau am saith o'r gloch gorfenn am un o'r gloch mynd i'r ysgol mewn bus mawr melyn	Mae'r ysgol yn dechrau am naw o'r gloch a gorfenn am hanner awr wedi tri Rwy'n mynd mewn car i'r ysgol
Ieithoedd	Siarad Cymraeg gyda teulu siarad Saesneg gyda fy ffrindiau dysgu Sbaeneg	Siarad Saesneg gyda'r teulu a ffrindiau, dysgu Cymraeg yn yr ysgol a club Cymraeg

Du i'n hoffi ysgol Jessie does dim gwisg ysgol a mae ysgol yn gorfenn am un o'r gloch Ond byddai'n ddim yn hoffi dechrau am saith o'r gloch Du i'n hoffi tywydd yn Michigan Du i'n hoffi tywydd beeth a Gorffennaf a mis Awst Du i'n ddim yn hoffi burw glaw sydd yn Cymru.

Freya's response in the table demonstrates a full understanding of the e-mail although it does contain some errors, e.g. 'bira eira'. She has demonstrated an understanding of the main ideas, characters and events. She has chosen relevant information for each of the boxes and in the paragraph that follows the grid she has managed to express her opinion simply.

## Gweithgaredd 5

### Llenwi grid i ddangos y gwahaniaethau rhwng bywyd Jessie a bywyd Freya: Neges o America

Yn dilyn eu gwaith ar Wyliau, bu'r disgyblion yn trafod bywyd a ffordd o fyw mewn gwahanol wledydd. Addasodd yr athrawes destun Gweithgaredd 49 o *Lyfr Gweithgareddau 2* yn y gyfres *Taith Iaith* ac ychwanegodd gwestiwn yn ogystal er mwyn gwneud y gwaith yn wahaniaethol ac er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer holl aelodau'r dosbarth. Darllenodd Freya'r fersiwn mwyaf heriol o'r testun a gwnaeth y dasg yn annibynnol fel gwaith cartref.

	Jessie	Fi
Byw naer - ble?	Byw yn Michigan yn America	byw yn Borth yn Cymru
Y tywydd	Mis Gorffennaf, Mis Awst - broeth iawn Mis Ionawr, Mis Chwefror mae hi'n oer iawn a bira eira	Mis Gorffennaf a mis Awst weithiau'n broeth, weithiau'n burw glaw Mis Ionawr a Mis Chwefror burw glaw a weithiau'n burw eira
Yr ysgol	Does dim gwisg ysgol dechrau am saith o'r gloch gerffan am un o'r gloch mynd i'r ysgol mewn bus arwre melyn	Mae'r ysgol yn dechrau am naw o'r gloch a gerffan am hanner awr wedi tri Rwy'n mynd mewn car i'r ysgol
Ieithoedd	Siarad Cymraeg gyda teulu siarad Saesneg gyda fy ffrendiau dysgu Sbaeneg	Siarad Saesneg gyda'r teulu a ffrendiau, dysgu Cymraeg yn yr ysgol a club Cymraeg


Dw i'n hoffi ysgol Jessie achis does dim gwisg ysgol a mae ysgol yn gerffan am un o'r gloch. Ond byddas i'n ddun yn hoffi dechrau am saith o'r gloch. Dw i'n hoffi tywydd yn Michigan. Dw i'n hoffi tywydd broeth mis Gorffennaf a mis Awst. Dw i'n ddun yn hoffi burw glaw sydd yn Cymru.

Mae ymateb Freya yn y tabl yn dangos dealltwriaeth lawn o'r e-bost er bod ambell wall yma, e.e. 'bira eira'. Mae hi wedi dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, cymeriadau a digwyddiadau. Mae hi wedi dewis gwybodaeth berthnasol ar gyfer pob un o'r blychau ac yn y paragraff sy'n dilyn y grid mae hi wedi llwyddo i fynegi barn yn syml.

## Writing

### Activity 1 | Transferring from primary to secondary school: *Paratoi pasbort*

As part of their preparations for transferring from primary to secondary school, the pupils had to complete a passport containing personal details, information about interests, etc. This is an extract from Freya's passport where she is writing on the subject 'Diwrnod i'w gofio'. The purpose of the task was to give pupils the opportunity to write in the past tense. Freya completed this work without any assistance from her teacher.




Freya has chosen to write about a day out at Oakwood with her father and a friend. She uses the past tense correctly and with ease. Although the work is ordered and shows progression, it tends to be monotonous at times. She varies her sentences to some extent and produces constructions and sentences which are correct apart from the occasional slip such as 'Roedd dad ddim eisiau mynd...' and 'Aethon ni ar e eto!'. Most words are spelt correctly and punctuation is usually appropriate. However, paragraphing could be improved.

## Ysgrifennu

### Gweithgaredd 1 | Trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd: Paratoi pasbort

Fel rhan o'u paratoad ar gyfer trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, roedd rhaid i'r disgyblion gwblhau pasbort a oedd yn cynnwys manylion personol, gwybodaeth am ddi-ddordebau, ac ati. Dyma ran o basbort Freya, lle mae hi'n ysgrifennu ar y pwnc 'Diwrnod i'w gofio'. Pwrpas y dasg oedd rhoi cyfle i'r disgyblion ysgrifennu yn yr amser gorffennol. Ysgrifennodd Freya'r darn hwn heb unrhyw gymorth gan ei hathrawes.



Mae Freya wedi dewis ysgrifennu am ddiwrnod yn Oakwood gyda'i thad a'i ffrind. Mae hi'n defnyddio'r amser gorffennol yn rhwydd ac yn gywir. Er bod trefn a dilyniant amlwg i'r gwaith, mae'n gallu swnio braidd yn gatalogaidd ar adegau. Mae hi'n amrywio peth ar ei brawddegau ac yn cynhyrchu cystrawennau a brawddegau sy'n gywir heblaw am ambell lithriad megis 'Roedd dad ddim eisieu mynd...' a 'Aethon ni ar e eto!'. Mae mwyafrif helaeth y geiriau wedi eu sillafu'n gywir ac mae'r atalnodi'n briodol fel arfer. Serch hynny, mae lle i wella o ran y paragraffu.

## Activity 2 | Introducing herself to a new friend: *Annwyl Caian*

Following a visit to the secondary school, the pupils were required to write a letter introducing themselves to a new friend. Before the pupils began to write, they discussed what type of information the letter should contain and produced a list containing the main ideas. This list was placed on the whiteboard to help pupils during the writing activity. Freya completed the task without difficulty.



Freya is aware of the format of a letter and the lay-out and tone are both appropriate. She demonstrates some grasp of order and progression. She begins by introducing herself and asking her new friend about the date of his birthday. She then goes on to talk about her brothers before returning to talk about herself again. She talks about her pets and her interests and asks Caian about his interests. There is some variation in her sentences and she writes constructions and sentences that are reasonably correct. The spelling is good and there are numerous examples of self-correction. She uses a wide range of punctuation marks appropriately. The work is legible and effectively presented.



## Gweithgaredd 2 | Cyflwyno'i hunan i ffrind newydd: Annwyl Caian

Yn dilyn ymweliad â'r ysgol uwchradd, y dasg i'r disgyblion oedd ysgrifennu llythyr i gyflwyno'u hunain i ffrind newydd. Mewn trafodaeth ddosbarth, cyn i'r disgyblion ddechrau ysgrifennu, rhestrwyd y math o wybodaeth y dylid ei chynnwys. Roedd y rhestr hon ar y bwrdd gwyn i'r disgyblion gael cyfeirio ati yn ystod yr ysgrifennu. Cyflawnodd Freya'r dasg yn ddiffwdan.



Mae Freya'n ymwybodol o ffurf llythyr ac mae'r gosodiad a'r naws yn addas. Mae'n dangos peth gafael ar drefn a dilyniant. Yn gyntaf, mae'n cyflwyno'i hun ac yn holi pryd mae pen-blwydd ei ffrind newydd ond yna, mae'n sôn am ei brodyr cyn symud yn ôl i siarad amdani hi ei hun eto. Yna, mae'n sôn am ei hanifeiliaid anwes a'i diddordebau ac yn holi Caian am ei ddiddordebau yntau. Mae'n amrywio peth ar ei brawddegau ac yn ysgrifennu cystrawennau a brawddegau sy'n weddol gywir. Mae'r sillafu'n dda a gwelir sawl enghraifft o hunan-gywiros yma. Mae'n defnyddio ystod eang o farciau atalodi'n briodol. Mae'r gwaith yn ddarllenadwy ac wedi ei gyflwyno'n effeithiol.

### Activity 3 | An extract from two diaries: 2007 ac 1865

The pupils regularly write Welsh diary entries in a variety of contexts. Here, there are two entries from two different diaries. The first, 'Eira', is contemporary and the second, 'Ar y Mimosa', requires Freya to use her imagination. The pupils had looked at pictures of the journey on the Mimosa and had discussed life on board the ship before undertaking this task.

Dau dyddiadur

Eira

Dydded Sadwrn, Ionawr 14, 2007

Heddiw, roedd hi'n bwrw eira. Fân agorais i'r llenwi gwnechlas arno mam bed yr eira yna. Yipie! Gwaeddodd Isaac Rhedon ni lawr y grisiau a allan i'r ardd. Adeiladon ni dyn eira. Ar ôl gorffen y dyn eira aethon ni i gael cinio. Cefais brechdan mus a creision. Mmm, roedd yn flasus! Wely, es i i fy ffrind a buon ni'n cartio yn yr eira. Roedd yn llawer o hwyl! Yna dechreuodd hi bwrw eira eto! Rwyf nawr yn gorwedd yn y gweli wedi blino'n ian!

Ar y Mimosa

27 Mehefin 1865

